Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Cynllun Corfforaethol 3 Blynedd

## Gorffennaf 2023

# Cynnwys

Cynllun Corfforaethol 3 Blynedd ..... 1
Crynodeb Gweithredol ..... 3
Cyflwyniad ..... 5
Ein huchelgeisiau a'n dangosyddion cynnydd ..... 6
Ein hamcanion ..... 10
Atodiad 1: Ein gweithgareddau ..... 16
Atodiad 2: Ein dangosyddion ..... 39

# Crynodeb Gweithredol

Yn 2022, gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth bum mlynedd ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae ein strategaeth yn cadarnhau mai “bwyd y gallwch ymddiried ynddo” yw ein cenhadaeth o hyd, a’n gweledigaeth ar gyfer y system fwyd yw un lle mae bwyd yn ddiogel, lle mae bwyd yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label, a lle mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy. Mae hefyd yn nodi ein rolau a’n hegwyddorion arweiniol.

Mae’r cynllun corfforaethol 3 blynedd hwn (y cynllun) yn disgrifio sut y byddwn yn troi uchelgeisiau ein strategaeth yn gamau gweithredu cadarn.

Mae’r cynllun yn dechrau drwy ddatgan ein huchelgais ar gyfer ein cenhadaeth a phob rhan o’r weledigaeth. Yn ystod y 3 blynedd nesaf rydym yn dymuno:

- cynnal y lefelau uchel o ymddiriedaeth a hyder sydd yn y system fwyd a’r ASB ar hyn o bryd
- cynnal safonau bwyd, fel bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label, ac fel bod defnyddwyr yn gallu parhau i fod â hyder yn eu bwyd
- cynyddu ein cyfraniad at – a’n dylanwad ar – fwyd sy’n iachach ac yn fwy cynaliadwy, gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi’i ddechrau ers i ni gyhoeddi ein strategaeth.

Mae’r cynllun hefyd yn manylu ar sut y byddwn yn gwneud hyn – drwy naw amcan sy’n cyd-fynd â’n rolau, gan gynnwys gwaith craidd a gwaith newid. Mae’r rhain wedi’u rhannu’n weithgareddau manylach yn yr atodiad, gan roi cyfeiriad i’n cynlluniau busnes blynyddol.

**Cynhyrchydd tystiolaeth (craidd):** Sicrhau bod ein penderfyniadau’n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, a rhannu’r dystiolaeth hon i hysbysu a dylanwadu ar eraill (defnyddwyr, busnesau a llunwyr polisi).

**Cynhyrchydd tystiolaeth (newid):** Adeiladu tystiolaeth, gan gynnwys trwy wyddoniaeth ac ymchwil, fel y gallwn ragweld cyfleoedd a risgiau ar draws system fwyd y DU.

**Lluniwr polisi (craidd):** Gwneud argymhellion cadarn a chefnogi’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau i wneud rhai gwybodus ar reolau yn ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid, a hynny’n seiliedig ar dystiolaeth ac asesiadau annibynnol.

**Lluniwr polisi (newid):** Creu dull rheoleiddio cymesur, effeithiol ac effeithlon sy’n canolbwyntio ar y dyfodol drwy’r broses dadansoddi risg a gwasanaeth cynhyrchion rheoleiddiedig, sy’n diogelu defnyddwyr ac yn dileu rhwystrau i arloesi.

**Rheoleiddiwr (craidd):** Cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio i sicrhau bod busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cydymffurfio â’r rheolau fel bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label.

**Rheoleiddiwr (newid):** Diwygio’r fframwaith rheoleiddio diogelwch bwyd i roi sicrwydd mwy cymesur sy’n seiliedig ar risg, nawr ac yn y dyfodol.

**Corff gwarchod:** Siarad yn gyhoeddus am feysydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr er mwyn annog safonau bwyd uchel yn y DU.

**Cynullydd a chydweithredwr:** Gweithio mewn partneriaethau ar draws y system fwyd i ddatblygu a darparu atebion gwell i ddefnyddwyr a busnesau.

**Galluogwr:** Darparu'r bobl, yr adnoddau a'r prosesau sydd eu hangen i gyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau corfforaethol.

# Cyflwyniad

## Diben y cynllun

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd yr ASB ei strategaeth bum mlynedd a'i gweledigaeth ar gyfer y system fwyd, gan nodi ei chyfeiriad tan fis Mawrth 2027. Gwnaethom hefyd gyhoeddi cyfres o flaenoriaethau i'w cyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf y strategaeth, gydag ymrwymiad i gyhoeddi cynllun corfforaethol 3 blynedd ar gyfer y 3 blynedd ariannol nesaf (3 i 2023).

Mae'r cynllun corfforaethol 3 blynedd hwn (y cynllun) yn rhoi'r strategaeth ar waith. Mae'n pontio'r bwlch rhwng yr uchelgeisiau yn ein strategaeth a'n cynlluniau busnes blynyddol manylach. Mae hefyd yn cynnwys dangosyddion cynnydd i nodi sut y byddwn yn gwerthuso'r cynnydd a wneir yn erbyn ein strategaeth.

## Ein cyd-destun a'n dull hyblyg

Pwysleisiodd ein strategaeth fod angen i'n dull fod yn hyblyg, a hynny mewn cyd-destun lle mae'r dirwedd yn newid yn gyflym. Amlygodd hefyd fod cyflymder y newid mewn technoleg a modelau busnes yn y system fwyd yn parhau i gyflymu.

Ers i ni gyhoeddi'r strategaeth, mae digwyddiadau wedi golygu ein bod wedi gorfod ailflaenoriaethu ein gwaith. Mae'r heriau hyn a'r pwysau cysylltiedig ar ein hadnoddau yn debygol o barhau yn y blynyddoedd i ddod ac mae'n rhaid i'n gwaith cynllunio roi'r hyblygrwydd i ni ymateb. Rydym felly wedi sicrhau bod y cynllun yn caniatáu digon o hyblygrwydd drwy fod yn eglur ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i ni, y dylem ni, neu y gallem ni ei gyflawni, fel y mae adnoddau'n caniatáu.

Mae hyn wedi'i lywio gan ein setliad yn Adolygiad o Wariant 2021 Trysorlys EF, a ddarparodd, yn y bôn, gyllideb wastad ar gyfer pob un o dair blynedd y cyfnod adolygu hyd at 3. Felly, mae angen i ni fabwysiadu cynllun y gellir ei gyflawni o fewn ein hadnoddau presennol ac sy'n caniatáu i ni ymdopi â phwysau chwyddiant neu bwysau annisgwyl.

## Strwythur y cynllun

Mae dwy ran i'r cynllun hwn:

- mae **ein huchelgeisiau a'n dangosyddion cynnydd** yn nodi pa mor bell yr ydym am fynd â'n cenhadaeth a'n gweledigaeth ar gyfer y 3 blynedd nesaf, a sut y byddwn yn monitro hyn. Mae Atodiad 3 yn cynnwys mwy o fanylion am y dangosyddion cynnydd
- mae **ein hamcanion** yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Mae Atodiad 1 yn cynnwys mwy o fanylion am y gweithgareddau y byddwn yn gweithio arnynt dros y 3 blynedd nesaf

## Gweithio ar draws 3 a 4 gwlad

Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu rôl yr ASB ar draws Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, gan adlewyrchu ein dull 'Un ASB'. Ar gyfer pob un o'r amcanion, rydym wedi ystyried amgylchiadau penodol pob gwlad, a byddwn yn sicrhau bod rhanddeiliaid o bob gwlad yn cael eu hysbysu a'u clywed. Rydym hefyd yn cydweithio â Safonau Bwyd yr Alban, yn unol â'n hymrwymiadau i weithio ar draws y 4 gwlad. Mae rhagor o wybodaeth am yr ASB yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon yn ein cynllun blaenoriaeth ar gyfer Cymru ac yn yr adroddiad gan Gyfarwyddwr yr ASB yng Ngogledd Iwerddon.

# Ein huchelgeisiau a'n dangosyddion cynnydd

Mae ein strategaeth yn nodi mai ein cenhadaeth yw **bwyd y gallwch ymddiried ynddo**, a'n gweledigaeth yw **bwyd diogel**, **bwyd sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label**, a **bwyd iachach a mwy cynaliadwy**.

Rydym nawr yn gosod ein huchelgais ar gyfer ein cenhadaeth a'n gweledigaeth dros y 3 blynedd nesaf.

**Ein huchelgeisiau**

- cynnal bwyd y gallwch ymddiried ynddo: ein huchelgais yw y bydd ymddiriedaeth a hyder yn y system fwyd, ac yn yr ASB, yn parhau ar eu lefelau uchel presennol
- cynnal safonau bwyd, fel bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label: ein huchelgais yw cynnal y lefelau uchel presennol o ddiogelwch a dilysrwydd bwyd yn y DU
- cynyddu ein cyfraniad at – a'n dylanwad ar – fwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy: ein huchelgais yw cynyddu ein cyfraniad at fwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy, gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i ddechrau




Er mwyn monitro a yw ein cenhadaeth a'n gweledigaeth yn cael eu cyflawni, mae angen i ni wybod beth sy'n digwydd yn y system fwyd. Ar ôl pennu ein huchelgais ar gyfer ein cenhadaeth a'n gweledigaeth, rydym wedi nodi nifer o ddangosyddion cynnydd sy'n rhoi trosolwg o p'un a yw'r system fwyd yn parhau i ddarparu bwyd y gallwch ymddiried ynddo neu a oes meysydd sydd angen mwy o sylw.

Mae'r dangosyddion yn tynnu ar ddata a gwybodaeth bresennol a ddarperir yng nghyhoeddiadau'r ASB, fel yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfunol, yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau Bwyd ac adroddiadau ymchwil manylach. Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau blynyddol ar ein dangosyddion cynnydd, gan sicrhau ein bod yn atebol i'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mae gwerthuso effaith yr ASB ar y system fwyd yn broses gymhleth, ac mae angen ystyried data yng nghyd-destun dylanwadau a newidiadau ehangach sy'n effeithio ar y system fwyd. Bydd y dangosyddion hyn yn rhoi cipolwg a fydd yn tynnu sylw at newidiadau yn y system fwyd y gallai fod angen ymchwilio ac ymateb iddynt, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i sicrhau bwyd y gallwch ymddiried ynddo.

Nodir isod y dangosyddion cynnydd sy'n dod o dan bob rhan o'r genhadaeth a'r weledigaeth.

## Cynnal bwyd y gallwch ymddiried ynddo

Un o'r rhesymau dros sefydlu'r ASB oedd er mwyn ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn diogelwch bwyd ar ôl cyfres o arswydon proffil uchel am fwyd yn ystod y 1980au a'r 90au. Mae bwyd y gallwch ymddiried ynddo yn parhau i fod yn genhadaeth i ni yn yr ASB.

Ein huchelgais yw sicrhau bod ymddiriedaeth a hyder yn y system fwyd, ac yn yr ASB, yn parhau ar eu lefelau uchel presennol. Mae amrywiaeth eang o ffactorau yn effeithio ar ymddiriedaeth yn y system fwyd, gan gynnwys penderfyniadau busnesau bwyd, y ffordd y caiff y system ei rheoleiddio a'r ffordd yr adroddir arni. Mae ymddiriedaeth yn yr ASB ei hun yn dibynnu ar ein cymhwysedd, amlygrwydd ein gwaith a sut rydym yn gweithredu'n gyson â buddiannau defnyddwyr.

**Dangosyddion cynnydd ar ymddiriedaeth**

Cwestiynau arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB ar ymddiriedaeth, gan gynnwys:

- mae'r bwyd rydych yn ei brynu yn ddiogel i'w fwyta
- mae'r wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir
- gallwn ddibynnu ar yr ASB i ddiogelu'r cyhoedd rhag risgiau sy'n ymwneud â bwyd

Ymchwil i ymddiriedaeth rhanddeiliaid yn yr ASB

## Cynnal bwyd sy’n ddiogel ac sy’n cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label

Gwaith yr ASB, fel y nodir yn Neddf Safonau Bwyd 1999, yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy’n codi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Mae busnesau bwyd eu hunain yn gyfrifol am sicrhau bod y bwyd y maent yn ei gynhyrchu a’i gyflenwi yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label. Mae llawer o waith yr ASB, gan gynnwys llawer o’r swyddogaethau statudol rydym yn eu cyflawni, wedi’i anelu at sicrhau bod y system hon yn gweithio ac yn cefnogi diogelwch a dilysrwydd bwyd yn y DU. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn gweithio’n uniongyrchol a chyda phartneriaid fel awdurdodau lleol.

Rydym yn rhagweld y bydd heriau yn dal i wynebu’r system fwyd dros y 3 blynedd nesaf. Bydd pwysau economaidd yn parhau i effeithio ar ddefnyddwyr a busnesau. Mae cyllid awdurdodau lleol a phrinder staff hefyd yn risg barhaus. Er mwyn parhau i ddiogelu defnyddwyr, ein huchelgais yw cynnal y lefelau uchel presennol o ddiogelwch a dilysrwydd bwyd yn y DU.

**Dangosyddion cynnydd ar fwyd sy’n ddiogel ac sy’n cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label**

- Cyfraddau clefydau a gludir gan fwyd (4 prif bathogen)
- Cyfraddau cydymffurfiaeth busnesau (Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ac arolygiadau o sefydliadau prosesu cig ac arolygiadau hylendid llaeth)
- Samplu bwyd wedi’i dargedu i gadarnhau bod cynhyrchion bwyd yn cydymffurfio (Arolwg Basged nwyddau’r ASB)
- Digwyddiadau bwyd
- Digwyddiadau bwyd sy’n gysylltiedig ag alergenau
- Ymatebion i droseddau bwyd

## Cyfrannu at fwyd sy’n iachach ac yn fwy cynaliadwy

Os ydym am ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, rhaid i ni hefyd gyfrannu at ymdrechion i wneud bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy. Ni yw’r unig adran sy’n canolbwyntio’n gyfan gwbl ar fwyd, ac felly byddwn yn defnyddio ein sgiliau a’n harbenigedd, i annog a chyfrannu at newid cadarnhaol.

Mewn rhai meysydd, mae gennym rôl wedi'i diffinio'n glir, er enghraifft, ein cyfrifoldebau polisi mewn perthynas â bwyd iachach yng Ngogledd Iwerddon. Y tu hwnt i'r rolau diffiniedig hyn, mae gennym fwy o ddisgresiwn i benderfynu sut rydym yn cyfrannu at ddarparu bwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy. Rydym yn gweithio i nodi'r ffordd orau i ni wneud hyn o fewn ein cylch gwaith a'n swyddogaethau statudol, er enghraifft drwy gyhoeddi tystiolaeth yn rhinwedd ein rôl fel corff gwarchod neu gyfrannu at brosiectau trawslywodraethol.

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn gyfrifol am bolisi iechyd deietegol, gwyliadwriaeth, a labelu, cyfansoddiad a safonau maeth. Er nad oes gennym y cyfrifoldebau hyn yng Nghymru, rydym yn dilyn gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effeithiau hirdymor eu gweithredoedd, gan gynnwys ar anghydraddoldebau o ran iechyd a'r amgylchedd. Er nad ydym ni'n gorff a enwir o dan y ddeddf, rydym yn gweithio i'r egwyddorion sydd ynddi.

Rydym hefyd yn gweithio drwy'r fframweithiau 4 gwlad, sef prosesau trawslywodraethol sy'n sicrhau dull gweithredu cyffredin mewn meysydd polisi datganoledig, a chydag ystod eang o randdeiliaid i gyfrannu at iechyd a chynaliadwyedd ledled y DU a thu hwnt.

**Dangosyddion cynnydd ar fwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy**

**Gogledd Iwerddon**

Astudiaethau achos a data, gan gynnwys:

- Rhaglen *Eating Well, Choosing Better* yr ASB ac arolygon cysylltiedig
- *Calorie Wise*
- *MenuCal*

**Cyfrannu mwy**

Astudiaethau achos a data, er enghraifft:

- Safonau Bwyd mewn Ysgolion
- Cydweithio gyda WRAP* i leihau gwastraff bwyd

* Mae'r Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yn elusen gofrestredig sy'n gweithio i fynd i'r afael ag achosion yr argyfwng hinsawdd.


Data Arolwg Bwyd a Chi 2 ar ymddygiad defnyddwyr

**Gweler atodiad 2 i gael y data diweddaraf ar y dangosyddion. Byddwn yn darparu diweddariadau ar y dangosyddion hyn bob blwyddyn, gan ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd fel bod modd i'r dangosyddion ddatblygu dros amser.**

# Ein hamcanion

Yn ogystal â sefydlu ein huchelgais, mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn troi cenhadaeth a gweledigaeth ein strategaeth yn gamau gweithredu cadarn. Mae'n gosod amcanion clir ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Mae'r amcanion hyn yn darparu fframwaith ar gyfer gweithgareddau manylach (gweler atodiad 1) sy'n llywio ein cynlluniau busnes blynyddol. Wrth gyflawni'r amcanion hyn, byddwn yn cymhwyso'r egwyddorion arweiniol a ddisgrifiwyd gennym yn fanwl yn ein strategaeth.

Mae ein strategaeth yn nodi pum rôl sydd gan yr ASB o ran darparu bwyd y gallwch ymddiried ynddo. Y rolau hyn yw cynhyrchydd tystiolaeth, lluniwr polisi, rheoleiddiwr, corff gwarchod, a chynullydd a chydweithredwr. Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y pum rôl hyn gydag amcanion ynghlwm wrth bob rôl.




Bydd ein strategaeth yn cael ei chyflawni drwy barhau i wneud ein gwaith craidd yn dda, wrth gyflawni rhai newidiadau sylweddol hefyd. Mae angen i ni gael y cydbwysedd cywir ac felly mae amcanion craidd a newidiadau i'w cyflawni wedi'u nodi o dan ein tair rôl sefydledig – sef cynhyrchydd tystiolaeth, lluniwr polisi a rheoleiddiwr. Mae'r ddwy rôl sy'n weddill – corff gwarchod, a chynullydd a chydweithredwr – yn llai sefydledig ac yn feysydd yr hoffem eu tyfu.

Rydym hefyd wedi ychwanegu rôl ychwanegol o'r enw galluogwr. O dan y rôl hon rydym wedi nodi'r gwaith pwysig, ond mewnol yn bennaf, sy'n ein helpu i gyflawni'r holl amcanion eraill.

## Cynhyrchydd tystiolaeth, lluniwr polisi a rheoleiddiwr

Mae tair rôl gyntaf yr ASB yn cynrychioli'r rhan fwyaf sefydledig o'n gwaith, a'n cyfrifoldebau statudol. Dyma lle y bydd y mwyafrif o'n hadnoddau yn parhau i fod.

Mae ein rolau cynhyrchydd tystiolaeth, lluniwr polisi a rheoleiddiwr yn canolbwyntio'n bennaf ar fwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, gyda nifer dethol o weithgareddau'n cyfrannu at fwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy (gan gynnwys ein cylch gwaith polisi maeth yng Ngogledd Iwerddon ac wrth weithio yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Cynhyrchydd tystiolaeth

Fel cynhyrchydd tystiolaeth, rydym yn cynhyrchu tystiolaeth wyddonol gadarn ac yn croesawu mewnbwn, craffu a heriau gan arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill.

**Amcan craidd cynhyrchydd tystiolaeth:** Sicrhau bod ein penderfyniadau'n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, a rhannu'r dystiolaeth hon i hysbysu a dylanwadu ar eraill (defnyddwyr, busnesau a llunwyr polisi).

**Amcan newid cynhyrchydd tystiolaeth:** Adeiladu tystiolaeth, gan gynnwys trwy wyddoniaeth ac ymchwil, fel y gallwn ragweld cyfleoedd a risgiau ar draws system fwyd y DU.

Yn rhinwedd ein gwaith fel cynhyrchydd tystiolaeth, byddwn yn:

- darparu gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn sy'n llywio ein penderfyniadau a'n cyngor, gan helpu i reoli risg ynghylch diogelwch a dilysrwydd bwyd a helpu i wneud bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy
- sicrhau bod ein tystiolaeth a'n gwaith dadansoddi ar gael i'w defnyddio ymhellach gan y gymuned wyddoniaeth, adrannau eraill o'r llywodraeth a rhanddeiliaid ehangach i gefnogi eu penderfyniadau eu hunain
- deall newidiadau mewn technoleg bwyd, modelau busnes ac agweddau defnyddwyr fel y gallwn asesu risgiau newidiol yn effeithiol
- cynyddu ein cyfraniad at fwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy


Drwy ein tystiolaeth, rydym yn gwella'r gwaith o wneud penderfyniadau rheoleiddio, gan leihau risg yn y system fwyd fel y gall defnyddwyr fod yn sicr ac yn hyderus bod y system fwyd yn cynnal diogelwch a dilysrwydd bwyd.

## Lluniwr polisi

Fel lluniwr polisi, rydym yn sicrhau bod y corff o ganllawiau, rheolau a rheoliadau sy'n bodoli – yn genedlaethol, yn rhyngwladol ac ar lefel ddatganoledig – yn darparu bwyd y

gallwch ymddiried ynddo.

**Amcan newid lluniwr polisi:** Creu dull rheoleiddio cymesur, effeithiol ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar y dyfodol drwy'r broses dadansoddi risg a gwasanaeth cynhyrchion rheoleiddiedig, sy'n diogelu defnyddwyr ac yn dileu rhwystrau i arloesi.




Dangosir ein cylch gwaith polisi ar draws Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr uchod. Rydym yn gyfrifol am bolisïau o ran diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, sy'n cynnwys gorsensitifrwydd i fwyd ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Yn ogystal, rydym yn gyfrifol am bolisïau o ran safonau cyfansoddiadol a labelu yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ac am safonau maeth, labelu ac iechyd a gwyliadwriaeth ddietegol yng Ngogledd Iwerddon yn unig.

Yn rhinwedd ein gwaith fel lluniwr polisi, byddwn yn:

- cynghori gweinidogion am risgiau sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ac am fuddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael

- gweithredu fel lluniwr polisi tryloyw, annibynnol sy'n seilio'i bolisïau ar dystiolaeth, gan olygu bod ein cyngor yn seiliedig ar gorff o ganllawiau, rheolau a rheoliadau yn genedlaethol, yn rhyngwladol ac ar lefel ddatganoledig

Mae hyn yn golygu y gall defnyddwyr fod yn hyderus bod y rheolau sy'n llywodraethu'r system fwyd yn sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

### Rheoleiddiwr

Rydym yn rheoleiddio rhai rhannau o'r system fwyd yn uniongyrchol, gyda'n staff a'n contractwyr yn darparu rheolaethau o ran cynhyrchu cig, cynnyrch llaeth cynradd a gwin. Rydym yn rheoleiddio rhannau eraill o'r diwydiant yn anuniongyrchol, gan weithio gydag awdurdodau lleol sy'n arolygu busnesau lleol sy'n gwerthu bwyd. Ni sy'n gosod y fframwaith arolygu, sy'n darparu cyngor ac arweiniad ac sy'n monitro perfformiad. Rydym yn gwneud yr un peth ar gyfer awdurdodau iechyd mewn porthladdoedd, sy'n arolygu mewnforion bwyd. Rydym hefyd yn darparu canllawiau ar gyfer busnesau bwyd.

**Amcan craidd rheoleiddiwr:** Cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddiol i alluogi busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid i gydymffurfio â'r rheolau fel bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

**Amcan newid rheoleiddiwr:** Diwygio'r fframwaith rheoleiddio diogelwch bwyd i roi sicrwydd mwy cymesur sy'n seiliedig ar risg.

Yn rhinwedd ein gwaith fel rheoleiddiwr, byddwn yn:

- monitro a sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau, a hynny'n uniongyrchol neu gan weithio trwy awdurdodau gorfodi eraill
- ymateb yn effeithiol pan aiff rhywbeth o'i le a pharatoi ar gyfer hyn a'i atal cyn belled ag y bo modd
- sicrhau ein bod yn deall sut mae'r system fwyd yn gweithio yn erbyn y safonau a osodwyd gennym
- hwyluso pethau i fusnesau er mwyn iddynt allu cyflawni eu rhwymedigaethau a gwneud y peth iawn

Mae hyn yn golygu bod defnyddwyr yn gallu bod yn hyderus bod busnesau bwyd yn dilyn y rheolau sydd ar waith i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

## Corff gwarchod, cynullydd a chydweithredwr

Mae pedwaredd a phumed rôl y strategaeth – corff gwarchod, a chynullydd a chydweithredwr – yn cynrychioli meysydd lle rydym am ehangu ein rôl a gwneud mwy.

Bydd hyn yn cynnwys gwaith a fydd yn helpu i gyflawni pob un o dair elfen ein gweledigaeth, sef bod bwyd yn ddiogel, bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, a bod bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy.

## Corff gwarchod, cynullydd a chydweithredwr

**Amcan corff gwarchod:** Siarad yn gyhoeddus am feysydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr er mwyn annog safonau bwyd uchel yn y DU.

Yn rhinwedd ein gwaith fel corff gwarchod, byddwn yn:

- monitro tueddiadau ar draws y system fwyd a helpu i nodi cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, materion a risgiau posib i ddefnyddwyr, a fydd yn galluogi'r ASB, ac eraill ar draws y llywodraeth, y diwydiant a chymdeithas sifil i gymryd camau lle y bo'n briodol
- defnyddio ein hannibyniaeth, ein llais a'n tystiolaeth i rannu gwybodaeth a pherswadio
  eraill, a hynny'n gyson yn unol â'n hegwyddor o fod yn llais dibynadwy ar safonau bwyd, sy'n diogelu buddiannau defnyddwyr.

Mae hyn yn golygu bod defnyddwyr yn gallu bod yn hyderus bod yr ASB yn siarad o blaid eu buddiannau ac yn annog eraill i weithio gyda ni i fynd i'r afael â phroblemau a allai effeithio ar ddiogelwch bwyd a ph'un a yw'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae hefyd yn ein galluogi i nodi cyfleoedd i gyfrannu at fwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy.

**Amcan cynullydd a chydweithredwr:** Gweithio mewn partneriaethau ar draws y system fwyd i fynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a busnesau.

Dim ond un o'r gweithredwyr yn y system fwyd yw'r ASB.

Yn rhinwedd ein gwaith fel cynullydd a chydweithredwr, byddwn yn:

- gweithio mewn partneriaeth â rhannau eraill o'r llywodraeth (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban ac awdurdodau lleol), ein partneriaid cyflenwi, diwydiant a chymdeithasau defnyddwyr i gyfuno ein galluoedd, ein hadnoddau a'n mewnwelediadau
- cynnull rhanddeiliaid systemau bwyd i ystyried ac ymateb i bryderon neu broblemau yn y system fwyd

Mae hyn yn golygu bod defnyddwyr yn gallu bod yn hyderus ein bod yn gweithio gydag amrediad eang o bartneriaid i gyflawni mwy nag y gallem ar ein pen ein hunain i ddarparu bwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae hefyd yn ein helpu i nodi cyfleoedd i gyfrannu gydag eraill at sicrhau bwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy.

## Galluogwr

Mae’r rolau a ddisgrifir yn ein strategaeth yn canolbwyntio ar ein gwaith allanol i sicrhau bod yna fwyd y gallwch ymddiried ynddo. Fodd bynnag, ni allai hyn ddigwydd heb y cyfraniadau sylweddol gan ein swyddogaethau galluogi sy’n caniatáu i’n sefydliad weithredu.

Felly, mae gan y cynllun hwn rôl ychwanegol, sef  rôl alluogi, sy’n adlewyrchu’r gwaith y mae angen i ni ei gyflawni yn y maes hwn dros y 3 blynedd nesaf.

**Amcan galluogwr:** Darparu’r bobl, yr adnoddau a’r prosesau sydd eu hangen i gyflawni ein hamcanion a’n blaenoriaethau corfforaethol.

Yn rhinwedd ein gwaith fel galluogwr, byddwn yn:

- cyflwyno a gwella swyddogaethau ategol fel cyllid, adnoddau dynol a diwylliant, masnach a thechnoleg, yn ogystal â sgiliau arbenigol ym maes cyfathrebu, y gyfraith, rheoli a strategaeth prosiectau a rhaglenni, sy’n ofynnol er mwyn i’n sefydliad redeg yn effeithiol
- gwneud y defnydd gorau o wasanaethau digidol a data i ddiwallu anghenion defnyddwyr mewnol a chyhoeddus

Mae hyn yn sicrhau bod pob rhan o’n sefydliad wedi’i harfogi i gyflawni ein hamcanion a sicrhau bod bwyd yn ddiogel, yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label, a’i fod yn iachach ac yn fwy cynaliadwy.

**Gweler atodiad 1 am weithgareddau penodol manylach i gyflawni pob amcan, fesul blwyddyn.**

# Atodiad 1: Ein gweithgareddau

## Ein dull hyblyg

Rydym wedi rhannu pob amcan yn gyfres o weithgareddau mwy manwl a phenodol. O ystyried ein cyd-destun, mae angen i ni fod yn hyblyg o ran yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y 3 blynedd nesaf.

I adlewyrchu hyn, rydym wedi rhannu ein gweithgareddau ymhellach i dri is-gategori:

- **rhaid:** pethau y mae’n rhaid i ni eu cyflawni’n ddi-amod, a allai fod yn gyfrifoldebau statudol y mae angen i ni barhau i’w bodloni neu’n newidiadau y mae angen i ni eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y system reoleiddio’n parhau i ddiogelu defnyddwyr.
- **dylid**: pethau y byddwn yn ceisio eu cyflawni ond efallai y bydd angen eu hailasesu os bydd amgylchiadau’n newid.
- **gellid**: pethau y byddwn yn eu cyflawni dim ond os bydd adnoddau ac amgylchiadau’n caniatáu.

Byddwn yn adolygu cydbwysedd yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn ein cynlluniau busnes blynyddol. Byddwn yn eu trafod yn ein Pwyllgor Busnes ym mis Mawrth bob blwyddyn.

## Cynhyrchydd tystiolaeth

**Amcan (craidd): Byddwn yn sicrhau bod ein penderfyniadau'n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, a byddwn yn rhannu'r dystiolaeth hon i lywio a dylanwadu ar eraill (defnyddwyr, busnesau a llunwyr polisi).**

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
| --- | --- |
| [EG1] **Rhaid** i ni sicrhau bod penderfyniadau ar ddadansoddi risg a gwaith 'craidd a newid' sy'n flaenoriaeth yn cael eu llywio gan wyddoniaeth a thystiolaeth amserol a chadarn. | Bydd hyn yn cynnwys darparu asesiad risg, ymchwil a thystiolaeth ar gyfer blaenoriaethau a ddisgrifir mewn mannau eraill yn y cynllun hwn, fel yr Adolygiad o Gyfraith yr UE a Ddargedwir, y Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau a'n gwasanaeth cynhyrchion rheoleiddiedig.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn parhau bob blwyddyn, yn unol ag anghenion tystiolaeth. |

**Amcan (newid): Byddwn yn adeiladu tystiolaeth, gan gynnwys trwy wyddoniaeth ac ymchwil, fel y gallwn ragweld cyfleoedd a risgiau ar draws system fwyd y DU.**

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
| --- | --- |
| [EG2] Rhaid i ni ddatblygu labordai a chyfundrefn samplu sy'n addas at y diben ac yn wydn at y dyfodol er mwyn sicrhau diogelwch a dilysrwydd bwyd. | Mae labordai swyddogol dadansoddwyr cyhoeddus yn cynnal dadansoddiadau cemegol a chyfansoddiadol ar samplau bwyd a bwyd anifeiliaid, a anfonir gan awdurdodau lleol neu awdurdodau iechyd porthladdoedd at ddibenion gorfodi a gwyliadwriaeth. Mae angen ymyrraeth uniongyrchol i sicrhau bod y DU yn cadw ac yn meithrin y capasiti a'r galluogrwydd profi sydd ei angen i gynnal profion rheolaidd, cefnogi digwyddiadau a chynnal gwaith dadansoddi sy'n gysylltiedig ag ymchwil.<br><br>Rydym wedi nodi dull 3 cham ar gyfer mynd i'r afael â hyn. Byddwn yn cyflawni cam 2 yn 2023/24 a 2024/25, ac yna'n symud i gam 3 yn 2025/26. |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [EG3] **Dylem** nodi a phrofi datblygiadau technegol a gwyddonol arloesol er mwyn gwella galluoedd yr ASB a'n partneriaid. | Mae hyn yn cynnwys dulliau profi newydd mewn labordai i wella ein galluoedd gwyliadwriaeth fel dilyniannu genomau a phrofion dŵr gwastraff. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno drwy'r rhaglen draws-lywodraethol ar gyfer Cadw Gwyliadwriaeth ar Bathogenau mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Amgylchedd (PATH-SAFE). Yn 2023/24 byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen, yn barod ar gyfer treialu dulliau newydd yn 2024/25 a 2025/26.<br><br>Mae hefyd yn cynnwys dulliau gweithredu a dulliau dadansoddol newydd i'n helpu i wneud defnydd gwell o ddata, fel ymddiriedolaethau data, y byddwn yn eu harchwilio yn 2024/25. |
| [EG4] **Dylem** gynnal a, lle bo angen, adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ar ddiddordeb y cyhoedd mewn bwyd. | Mae hyn yn cynnwys gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad pobl. Byddwn yn parhau i gyhoeddi ymchwil ar ein gwefan ac yn ei defnyddio i lywio ein holl waith. Bydd hyn hefyd yn darparu gwybodaeth i gefnogi ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau Bwyd, a drafodir isod yn yr adran ar ein rôl fel corff gwarchod.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn canolbwyntio ar effaith diffyg diogeledd bwyd cartrefi, ac yna, yn 2024/25 a 2025/26, efallai y gallwn ddechrau ehangu cwmpas ein tystiolaeth i ystyried deietau iachach a mwy cynaliadwy, yn unol â strategaeth yr ASB.  Rydym yn bwriadu gweithio gydag eraill i gyflawni hyn, gan gynnwys drwy gymryd rhan yn Nhreialon Bwyd SALIENT. Byddwn yn helpu i gynllunio a gwerthuso cyfres o dreialon ar draws y sector bwyd i annog deietau iach a chynaliadwy. |

Pe bai adnoddau'n caniatáu, **gallem** wneud y canlynol:

- [EG5] dechrau adeiladu mwy o dystiolaeth ar gostau allanol bwyd a fwyteir yn y DU o ran yr amgylchedd ac iechyd pobl, er mwyn dangos pa mor bwysig yw safon bwyd

## Lluniwr polisi

**Amcan (craidd): Byddwn yn gwneud argymhellion cadarn ac yn cefnogi gweinidogion i wneud penderfyniadau gwybodus ar reolau yn ymwneud â bwyd, yn seiliedig ar dystiolaeth ac asesiadau annibynnol.**

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [PM1] Rhaid i ni gynnal proses dadansoddi risg effeithiol ac effeithlon, gan gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar draws 4 gwlad y DU. | Dadansoddi risg yw'r broses o asesu, rheoli a chyfleu risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, gan wneud argymhellion cadarn ac annibynnol ar ddiogelwch a safonau bwyd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae ein proses dadansoddi risg yn defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth i ddarparu cyngor i'r llywodraeth, busnesau a defnyddwyr ar risgiau diogelwch bwyd a'r hyn y dylid ei wneud yn eu cylch. Drwy wneud hyn, rydym yn sicrhau safonau uchel o ran diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ac yn diogelu defnyddwyr.<br><br>Mae hyn yn weithgaredd parhaus, a byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon bob blwyddyn. |
| [PM2] Rhaid i ni wneud argymhellion i Weinidogion ynghylch pa gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid y dylid eu hawdurdodi i'w gwerthu ar y farchnad ym Mhrydain Fawr a chynghori ar oblygiadau newidiadau rheoleiddiol yng Ngogledd Iwerddon. | Mae angen i rai cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid, a elwir yn gynhyrchion rheoleiddiedig, gael eu hawdurdodi cyn y gellir eu gwerthu yn y DU. Mae'r ASB, ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban, yn cynnal proses dadansoddi risg ar gyfer cynhyrchion rheoleiddiedig ac yn darparu cyngor i Weinidogion, a fydd yn penderfynu a ellir rhoi'r cynnyrch ar y farchnad yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Byddwn yn parhau i roi cyngor ar oblygiadau newidiadau rheoleiddiol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon a Fframwaith Windsor. Mae hwn yn weithgarwch parhaus. Rydym yn parhau i gyflawni ein rhaglen o welliannau parhaus, sy'n canolbwyntio ar wneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon, er enghraifft trwy wella cymorth i ymgeiswyr a symleiddio ein prosesau. Byddwn yn cynnwys camau gwella penodol yn ein cynlluniau blynyddol. |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [PM3] Rhaid i ni asesu a gwneud argymhellion ar geisiadau mynediad i'r farchnad a chynnig mewnbwn technegol i adrannau eraill y llywodraeth ar faterion "Iechydol a Ffytoiechydol" a "Rhwystrau Technegol i Fasnachu" mewn cytundebau masnach. | Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith y llywodraeth ar gyfleoedd masnach i'r DU, gan ddarparu asesiadau risg o wledydd sydd am ddechrau mewnforio i'r DU a dangos ein trefniadau diogelwch bwyd ein hunain i wledydd rydym yn allforio iddynt. Rydym yn rhoi cyngor i weinidogion ynghylch a yw Cytundebau Masnach Rydd yn cynnal amddiffyniadau statudol ar gyfer iechyd dynol i gefnogi adroddiadau a gaiff eu llunio ar gyfer Senedd y DU o dan Adran 42 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020. Rydym hefyd yn rhoi cyngor ar geisiadau i gael mynediad i'n marchnadoedd ar gyfer nwyddau penodol.<br><br>Mae hwn yn weithgarwch parhaus. Bydd ein cyngor ar Gytundebau Masnach Rydd yn parhau i gael ei ddatblygu ar gais, ar ôl cytuno ar gytundebau newydd. Yn 2023/24, rydym yn rhagweld y byddwn yn cytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth gyda Defra ar gyfer mynediad i'r farchnad fewnforion, ac os felly byddwn yn cyflawni yn unol â'r cytundeb hwnnw.<br><br>Mae'r gweithgaredd hwn hefyd yn cysylltu â'n rôl fel corff gwarchod isod, gan roi sicrwydd i'r senedd a'r cyhoedd ar gytundebau masnach. |
| [PM4] Rhaid i ni ddarparu cyngor polisi i gefnogi'r gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol effeithiol sy'n seiliedig ar risg. | Cyfeirir at weithgareddau fel arolygiadau, archwiliadau a gwyliadwriaeth, a samplu mewn busnesau bwyd yn rheolaethau swyddogol. Byddwn yn sicrhau cyngor polisi ac argymhellion clir ac amserol i gefnogi'r broses rheolaethau swyddogol, sy'n gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth sydd ar gael, gan ymgysylltu'n gynnar ar draws holl wledydd y DU i leihau gwahaniaethau lle bo'n briodol.<br><br>Mae hyn yn weithgarwch parhaus, ond byddwn yn gosod nodau polisi penodol yn ein cynlluniau blynyddol i adlewyrchu materion sy'n codi ar y pryd. |
| [PM5] Rhaid i ni reoli achosion o ddargyfeirio, cyflawni ein rhwymedigaethau o ran y fframwaith cyffredin a sicrhau | Mae natur ddatganoledig penderfyniadau polisi bwyd yn golygu, gan fod Prydain Fawr bellach y tu allan i system gyson yr UE, fod systemau rheoleiddio gwahanol wledydd y DU wedi dechrau dargyfeirio eisoes. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda rhannau eraill o'r llywodraeth i geisio consensws o ran y cyngor a roddwn i weinidogion ym mhob gwlad . Mae hyn yn cynnwys |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| cysondeb i ddefnyddwyr a busnesau ledled y DU. | cymryd rhan mewn Fframweithiau Cyffredin, sef prosesau traws-lywodraethol sy'n sicrhau bod dull cyffredin yn cael ei fabwysiadu mewn meysydd polisi datganoledig.<br><br>Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w wneud, gan sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i faterion dargyfeirio wrth ddatblygu polisi. |
| [PM6] Rhaid i ni sicrhau bod safonau bwyd ac iechyd y cyhoedd yn cael eu cynnal, o dan drefniadau Fframwaith Windsor ar gyfer masnach rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. | Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod wedi dod i gytundeb rhyngwladol newydd gyda'r UE ar newidiadau i drefniadau ymarferol ar gyfer Protocol Gogledd Iwerddon.<br><br>Rhaid i'r ASB weithredu agweddau ar y cytundeb newydd, gan ddechrau ddiwedd 2023/24 hyd at 2025. |
| [PM7] Rhaid i ni gyflwyno cyfres o Offerynnau Statudol yng Nghymru a Lloegr a Rheoliadau Statudol yng Ngogledd Iwerddon, er mwyn bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau i REUL y cytunwyd arnynt. | Mae Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygio a Dirymu) fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn cynnwys rhestr o Gyfreithiau'r UE a Ddargedwir (REUL) a fydd yn cael eu dirymu'n uniongyrchol ar ddiwedd 2023 drwy amserlen ddirymu. Bydd pob Rheoliad arall yr UE yn cael ei drosglwyddo'n awtomatig i ddeddfwriaeth ddomestig y DU ar yr un dyddiad. Byddwn yn adolygu pob darn o REUL o fewn ein cylch gwaith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac yn cynghori gweinidogion ar bob un ohonynt. Bydd angen i ni sicrhau bod y corff o gyfreithiau yn parhau i weithio'n effeithiol yn ei gyfanrwydd, ac yn cyflawni rhwymedigaethau sy'n deillio o gytundebau rhyngwladol. Byddwn yn gwneud hyn wrth ddatblygu rhaglen ddiwygio er mwyn manteisio i'r eithaf ar allu'r ASB i ysgogi newid.<br><br>Gwneir gwaith cychwynnol i adolygu REUL ym mlwyddyn gyntaf y cynllun hwn, gyda diwygiadau tymor hwy yn cael eu cyflawni yn 2024/25 a 2025/26. |

**Amcan (newid): Byddwn yn creu dull rheoleiddio cymesur, effeithiol, effeithlon sy'n canolbwyntio ar y dyfodol drwy'r broses dadansoddi risg a'r gwasanaeth cynhyrchion rheoleiddiedig, sy'n diogelu defnyddwyr ac yn dileu rhwystrau i arloesi.**

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [PM8] Rhaid i ni ddatblygu trefn reoleiddio newydd ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl. | Mae bridio manwl yn disgrifio ystod o dechnegau genetig a all newid DNA planhigion ac anifeiliaid mewn ffordd gyflymach a mwy manwl, ond gan arwain at ganlyniadau y gellid bod wedi'u cyflawni gan ddefnyddio dulliau confensiynol.<br><br>Mae'r Ddeddf Technoleg Enetig (Bridio Manwl) yn rheoleiddio planhigion ac anifeiliaid sydd wedi'u bridio'n fanwl a ddefnyddir yn Lloegr. Er mwyn cefnogi hyn a diogelu defnyddwyr, byddwn yn parhau i ddatblygu proses awdurdodi cyn marchnata newydd yn seiliedig ar dystiolaeth, proses orfodi a chofrestr gyhoeddus ar gyfer cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a ddatblygir gan ddefnyddio'r technolegau hyn. Byddwn hefyd yn parhau i gynghori gweinidogion yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ar oblygiadau'r Ddeddf yn y gwledydd hynny.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn dylunio pob elfen, gan ymgynghori ar ein cynigion. Rydym yn disgwyl y caiff y rheoliadau angenrheidiol eu gwneud yn 2024 (mae hyn yn dibynnu ar amserlenni seneddol). Unwaith y daw'r drefn newydd yn gyfraith, byddwn yn barod i dderbyn ceisiadau o dan y rheoliadau newydd. |
| [PM9] Dylem ystyried diwygiadau wedi'u targedu i'r drefn cynhyrchion rheoleiddiedig drwy bwerau sy'n debygol o gael eu creu o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir. | Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer diwygio rheoleiddiol, er mwyn gwneud y gwasanaeth cynhyrchion rheoleiddiedig yn fwy effeithlon ac effeithiol, a chael gwared ar rwystrau i arloesi.<br><br>Wrth weithio ar Gyfraith yr UE a Ddargedwir, byddwn yn achub ar y cyfle i gael gwared ar rai o'r elfennau aneffeithlon a etifeddwyd yn y corff o gyfreithiau sy'n deillio o'r UE, ac i symleiddio'r broses awdurdodi gan ei gwneud yn fwy effeithlon i'w gweinyddu, lleihau oedi diangen a gwella canlyniadau i ddefnyddwyr ac ar gyfer y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys y drefn ar gyfer awdurdodi bwydydd newydd (bwydydd nad ydynt wedi cael eu bwyta'n eang gan bobl yn y DU na'r Undeb Ewropeaidd cyn mis Mai 1997). Mae angen awdurdodi bwydydd newydd cyn y gellir eu rhoi ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, ac mae'r ASB yn cynghori gweinidogion ar benderfyniadau awdurdodi.<br><br>Yn 2023/24, bydd canfyddiadau adolygiad annibynnol o ddulliau rheoleiddio bwydydd newydd yn dod i law, a byddwn yn gwerthuso'r rhain i ystyried pa rai fyddai'n fwyaf buddiol i'w harchwilio |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| | ymhellach. Lle bo modd, byddwn yn bwrw ymlaen â newidiadau blaenoriaethol fel rhan o ail gam y gwaith ar Gyfraith yr UE a Ddargedwir (erbyn 2026). Bydd diwygiadau mwy uchelgeisiol yn dibynnu a yw'r adnoddau i gynllunio a gweithredu newid ar gael. |
| [PM10] Dylem archwilio opsiynau i wella'r ddarpariaeth o wybodaeth am alergenau i bobl sydd â gorsensitifrwydd i fwyd. | Yn ogystal â'n gwaith craidd o leihau niwed i bobl â gorsensitifrwydd i fwyd (fel ymateb i achosion o alergenau a darparu cyngor a chanllawiau i'r diwydiant a swyddogion gorfodi), rydym wedi gosod rhaglen waith sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd pobl sydd â gorsensitifrwydd i fwyd.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth, cyfuno'r hyn sydd gennym hyd yma a datblygu opsiynau ar gyfer y camau nesaf ar ddarparu gwybodaeth yn y sector bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru i'r diwydiant ar ddatganiadau 'gallai gynnwys'. Yn 2024/25, rydym yn bwriadu ymgynghori ar system ymarferol ar gyfer labelu alergenau rhagofalus a phrofi opsiynau polisi yn sgil ein gwaith casglu tystiolaeth cynharach. |

Gallem fynd ymhellach pe bai amser ac adnoddau yn caniatáu:

- [PM11] Adolygu a chryfhau gallu'r ASB i ystyried manteision a risgiau amgylcheddol ac iechydol wrth ystyried ffactorau cyfreithlon eraill fel rhan o ddadansoddi risg.
- [PM12] Dylanwadu ar safbwyntiau y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth mewn perthynas â bwyd i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu diogelu. Gallai enghreifftiau gynnwys gwybodaeth i ddefnyddwyr am effaith amgylcheddol bwyd, neu iechyd deietegol hirdymor.

## Rheoleiddiwr

**Amcan (craidd): Byddwn yn cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio i alluogi busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid i gydymffurfio â'r rheolau fel bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.**

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [R1] Rhaid i ni gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio fel y rheoleiddiwr cenedlaethol i sicrhau bod busnesau bwyd, bwyd anifeiliaid a mewnforio yn cydymffurfio â'r rheolau. | Mae'r ASB yn gweithredu fel 'Awdurdod Cymwys Canolog' – rhan o strwythur tair haen i oruchwylio a chadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd. Mae gweithredwyr busnesau bwyd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau. Mae Awdurdodau Cymwys yn cadarnhau ac yn gorfodi cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd, ac mae Awdurdodau Cymwys Canolog yn archwilio ac yn sicrhau gwaith Awdurdodau Cymwys.<br><br>Mae'r gweithgarwch hwn yn adlewyrchu ein rôl fel Awdurdod Cymwys Canolog. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y rhai sy'n gweithredu fel awdurdodau cymwys yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn darparu cymorth i awdurdodau lleol yn bennaf, ymhlith eraill, i gynnal rheolaethau swyddogol ar gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.<br><br>Mae hon yn rôl barhaus a fydd yn parhau drwy gydol 3 blynedd y cynllun hwn. Byddwn yn adrodd wrth Bwyllgor Busnes yr ASB bob chwarter am y cynnydd a wnaed gan awdurdodau cymwys wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau, ac wrth Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yr ASB am ganfyddiadau ein rhaglen archwilio. |
| [R2] Rhaid i ni gynnal rheolaethau swyddogol yn uniongyrchol mewn busnesau cig, llaeth a gwin (gan gynnwys allforwyr). | Yn ogystal â'n rôl fel Awdurdod Cymwys Canolog, mae gan yr ASB gyfrifoldeb uniongyrchol (Awdurdod Cymwys) am arolygu, archwilio a rhoi sicrwydd i fusnesau yng Nghymru a Lloegr sy'n cynhyrchu cig, gwin a chynnyrch llaeth. Mae'r ASB yn cynnal rheolaethau ar bysgod cregyn ar y cyd ag awdurdodau lleol.<br><br>Mae hwn yn weithgarwch parhaus. Byddwn yn parhau i sicrhau y darperir sicrwydd priodol ar draws yr holl weithgareddau perthnasol, gan wella safonau a sicrhau cydymffurfiaeth. Byddwn yn sicrhau bod rheolaethau swyddogol ar gyfer cig, cynnyrch llaeth a gwin yn cael eu cynnal yn effeithiol o fewn amser, cost ac i'r ansawdd gofynnol yng Nghymru a Lloegr, gyda'r capasiti a'r galluogrwydd cywir. Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r Llawlyfr Rheolaethau Swyddogol, sy'n nodi'r tasgau, y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau y mae staff yr ASB a chontractwyr milfeddygol yn eu cyflawni mewn sefydliadau cig cymeradwy. Yn 2024/25, byddwn hefyd yn cyhoeddi fersiwn o'r Llawlyfr Rheolaethau Swyddogol sy'n bodloni gofynion hygyrchedd. |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
| --- | --- |
| [R3] Rhaid i ni ddarparu ymateb effeithlon ac effeithiol i digwyddiadau o ran bwyd a bwyd anifeiliaid. | Ceir digwyddiad bwyd pan allai pryderon am ddiogelwch neu ansawdd bwyd a/neu fwyd anifeiliaid olygu bod angen cymryd camau gweithredu er mwyn diogelu defnyddwyr. Byddwn yn parhau i ddefnyddio dulliau gwyliadwriaeth i nodi risgiau i ddefnyddwyr a sylwi ar ddigwyddiadau posib o ran diogelwch bwyd, a byddwn yn ymateb i'r rhain pan fyddant yn digwydd. Mae hyn hefyd yn tynnu ar gyfraniadau polisi ymatebol a wneir yn sgil digwyddiadau, a chyngor polisi â chefnogaeth dda i gynorthwyo camau gweithredu.<br><br>Byddwn yn parhau i sicrhau bod gan yr ASB y capasiti a'r galluogrwydd i ganfod, ymateb i ac atal digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn effeithiol. |
| [R4] Rhaid i ni ddarparu ymateb effeithlon ac effeithiol i droseddau bwyd. | Mae ein Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn gweithio i fynd i'r afael â thwyll difrifol a throseddu cysylltiedig mewn cadwyni cyflenwi bwyd.<br><br>Byddwn yn parhau i ddarparu ymateb effeithlon ac effeithiol i droseddau bwyd bob blwyddyn. Byddwn hefyd yn gwella ein modd ni o wneud hyn yn barhaus. Yn 2023/24 a 2024/25, byddwn yn parhau i gyflawni ein cynllun i weithredu'r canfyddiadau a nodwyd yn adolygiadau'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd a gwblhawyd yn 2020 a 2022. Erbyn 2025/26, byddwn yn meincnodi ein gwaith yn erbyn y 'goreuon' ym maes Gorfodi'r Gyfraith yn y DU a strwythurau arbenigol eraill ym maes ymchwilio i droseddau bwyd mewn gwledydd eraill. Mae cysylltiad agos rhwng y gwelliant hwn a sicrhau pwerau ymchwilio, a ddisgrifir isod yn yr adran newid. |

**Amcan (newid): Byddwn yn diwygio'r fframwaith rheoleiddio diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid i roi sicrwydd mwy cymesur sy'n seiliedig ar risg, nawr ac yn y dyfodol.**

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
| --- | --- |
| [R5] Rhaid i ni sicrhau bod y safonau bwyd newydd a'r modelau cyflawni hylendid diwygiedig ar | Rydym am gefnogi awdurdodau lleol yn well fel y gallant ganolbwyntio eu hamser a'u harbenigedd lle mae'n ychwanegu'r gwerth mwyaf ac yn diogelu defnyddwyr orau. Mae hyn yn cynnwys moderneiddio'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rheoleiddio hylendid bwyd a safonau |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
| --- | --- |
| gyfer awdurdodau lleol ar waith ac yn gweithio'n dda. | bwyd mewn busnesau bwyd. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â diffygion gyda'r modelau presennol.<br><br>Ar gyfer y model safonau bwyd, bydd Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd diwygiedig yn cael eu cyflwyno yng Ngogledd Iwerddon ac yn Lloegr yn gynnar yn 2023/24, a bydd awdurdodau lleol yn dechrau pontio i roi'r model newydd ar waith. Byddwn hefyd yn cytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol cychwynnol a ffordd o gasglu data. Ein huchelgais yw i bob awdurdod lleol roi'r cod newydd ar waith yn 2024/25, ac yna byddem yn cynnal adolygiad ôl-weithredu yn 2025/26. Yng Nghymru, byddwn yn treialu'r model newydd yn 2023/24, ac rydym yn rhagweld y bydd Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd diwygiedig yn cael ei gynnig yn 2024/25.<br><br>Ar gyfer y model hylendid bwyd, byddwn yn ymgynghori ar newidiadau i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd i adlewyrchu'r model newydd yn 2023/24, ac yna'n dechrau cynllun peilot yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Rydym yn disgwyl y byddwn yn cynnig ac yn gweithredu cod newydd yn 2025/26. |
| [R6] Rhaid i ni weithio'n effeithiol gyda llywodraethau ym mhob gwlad i gytuno ar a chyflawni'r Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau mewn perthynas â rheolaethau mewnforio. | Mae'r llywodraeth wedi pennu Strategaeth Ffiniau'r DU, sy'n cynnwys Model Gweithredu Targed hirdymor ar gyfer y ffin. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno rheolaethau mewnforio Iechydol a Ffytoiechydol ar nwyddau'r UE a diwygio'r rheolaethau ar nwyddau nad ydynt yn dod o'r UE. Mae'r ASB wedi gweithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth ar ddatblygu Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod lefelau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal, neu eu gwella, wrth gyflwyno'r Model Gweithredu Targed newydd ar gyfer y Ffiniau.<br><br>Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r Model Gweithredu Targed arfaethedig ar gyfer y Ffiniau yn 2023, ac yn rhagweld y bydd y model yn cael ei roi ar waith erbyn diwedd 2-23 a thrwy 2024, gyda gwelliannau parhau yn cael eu gwneud yn 2025/26. |
| [R7] Rhaid i ni ddatblygu model cynaliadwy sy'n cydymffurfio â'r | Mae'r maes bwyd wedi newid yn sylweddol yn ystod y 3 degawd ers cyflwyno'r system reoleiddio gyfredol. Er bod rheoleiddio wedi parhau i ddatblygu, nid yw wedi llwyddo i aros yn gyfoes â'r newidiadau sylweddol yn y diwydiant bwyd. Ar gyfer rhai rhannau o'r sector bwyd, |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| gyfraith ar gyfer rheolaethau swyddogol. | efallai y bydd ffyrdd mwy effeithiol o sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â'r rheolau na'n model rheoleiddio cyfredol, sy'n seiliedig yn helaeth ar awdurdodau lleol yn arolygu wyneb yn wyneb ac yn rheolaidd mewn safleoedd busnesau bwyd.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn treialu math newydd o reoleiddio ar lefel menter gyda rhai o'r prif fanwerthwyr yn Lloegr. Gellid gweithredu hyn yn ddiweddarach yn y cyfnod o 3 blynedd yn dibynnu ar ganlyniad y treial.<br><br>Yn ystod 2023/24 byddwn hefyd yn dechrau gwaith polisi ar yr opsiynau tymor hwy sydd ar gael ar gyfer model rheoleiddio yn y dyfodol, a disgwyliwn barhau â'r gwaith hwnnw yn y blynyddoedd sydd i ddod. |
| [R8] Dylem sicrhau pwerau ymchwilio ychwanegol priodol i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. | Ar hyn o bryd nid oes gan yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yr ystod lawn o bwerau sydd eu hangen arni er mwyn casglu'r dystiolaeth angenrheidiol i sicrhau erlyniadau mewn achosion cymhleth a heriol o droseddau bwyd. Er bod gan yr NFCU rai pwerau ac offer ymchwilio, mae'n dal i ddibynnu ar bartneriaid allanol, yn bennaf yr heddlu, neu awdurdodau lleol o bosib, i gynnal rhai swyddogaethau ymchwilio sylfaenol. Yn unol ag argymhellion adolygiadau o'r NFCU (gweler Adolygiad Kenworthy, Swyddfa Archwilio Genedlaethol), rydym wrthi'n sicrhau'r pwerau hyn. Ym mis Ebrill 2022, pasiodd y senedd Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd. Mae'n galluogi i'r Ysgrifennydd Gwladol roi pwerau perthnasol i swyddogion yr NFCU yng Nghymru a Lloegr.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn chwilio am gyfleoedd am fil addas i alluogi'r bwlch sy'n weddill mewn deddfwriaeth sylfaenol (yn ymwneud â goruchwyliaeth gan Arolygaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi) a gosod amserlen glir. Rydym yn rhagweld y bydd offeryn statudol yn cael ei lunio yn 2024/25, a bydd yr NFCU yn mabwysiadu'r pwerau a'u defnyddio mewn modd gweithredol tan o leiaf 2025/26. |
| [R9] Dylem weithio tuag at ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ei gwneud yn orfodol arddangos | Mae sgoriau hylendid bwyd yn adlewyrchu'r safonau hylendid bwyd a ganfuwyd adeg yr arolygiad gan yr awdurdod lleol mewn busnesau bwyd unigol. Rhoddir sticer i fusnesau sy'n dangos eu sgôr, a gallent ei arddangos ar eu safleoedd. Mae arddangos sgoriau yn orfodol yng |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn Lloegr. | Nghymru a Gogledd Iwerddon, ond yn wirfoddol yn Lloegr. Mae'r ASB wedi ymrwymo i wthio'r achos dros arddangos gorfodol mewn safleoedd ac ar-lein yn Lloegr.<br><br>Bydd amserlen y gwaith sydd ei angen i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn dibynnu ar nodi llwybr addas ar gyfer llunio deddfwriaeth sylfaenol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth. Bydd hefyd yn dibynnu ar gefnogaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. |
| [R10] Dylem wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ffordd y mae'r ASB yn cynnal rheolaethau swyddogol yn uniongyrchol. | Yn ogystal â'r diwygiadau a ddisgrifir uchod i greu model cynaliadwy sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ar gyfer rheolaethau swyddogol, byddwn yn mynd ati i barhau i wella'r ffordd yr ydym yn cynnal rheolaethau swyddogol yn uniongyrchol yn y sectorau cig, gwin a llaeth o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn dod yn fwy effeithiol o ran ein swyddogaeth cyflawni gweithredol, gan ddefnyddio technoleg a gwella prosesau. Bydd y gwelliannau hyn yn cynnwys, er enghraifft, sut rydym yn casglu ac yn cyfathrebu canlyniadau arolygiadau, sut rydym yn rhoi'r adnoddau perthnasol i'n harchwilwyr gasglu a storio gwybodaeth, a sut rydym yn defnyddio data i dargedu ein hadnoddau a'n hymyriadau yn well. Byddwn hefyd yn cynhyrchu ac yn cyflawni yn erbyn fframwaith perfformiad gweithredol newydd, wedi'i optimeiddio. Byddwn yn parhau i nodi gwelliannau newydd yn 2024/25 a 2025/26. |
| [R11] Dylem wella ein dull o atal a rheoli digwyddiadau. | Rydym bob amser yn ceisio gwella ein dull o reoli digwyddiadau, gan gynnwys datblygu polisi cyflym. Rydym hefyd am ddefnyddio technoleg a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg yn fwy, gan ddatblygu ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng digwyddiadau, er mwyn helpu i'w hatal.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn rhoi ar waith argymhellion yn sgil adolygiad strategol a gynhaliwyd yng ngoleuni'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad yn deillio o'r rhyfel yn Wcráin, ac rydym yn disgwyl ymgorffori strwythurau newydd a rhoi newidiadau i'r Cynllun Rheoli Digwyddiadau ar waith. Byddwn hefyd yn sefydlu'r gallu i ddeall a dadansoddi digwyddiadau'n well, er enghraifft, trwy ddefnyddio dulliau gwyliadwriaeth dadansoddi gwraidd y broblem a gwaith samplu. Byddwn yn parhau i roi canlyniadau'r adolygiad strategol ar waith yn 2024/25 ac yn gwneud gwelliannau pellach yn 2025/26. |

Gallem fynd ymhellach pe bai amser ac adnoddau yn caniatáu:

- [R12] Treialu dulliau newydd pellach o roi sicrwydd rheoleiddio.

## Corff gwarchod *(watchdog)*

**Amcan: Byddwn yn siarad yn gyhoeddus am feysydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr er mwyn annog safonau bwyd uchel yn y DU.**

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [W1] Rhaid i ni lunio cyngor ar fesurau diogelwch statudol ar gyfer iechyd pobl mewn cytundebau masnach ar gais yr Adran Busnes a Masnach ar gyfer adroddiadau adran 42, a gwneud sylwadau cyhoeddus fel arall ar effaith cytundeb masnach lle bo'n briodol i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. | Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn rhoi sicrwydd o dan adran 42(4) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, ynghylch a yw'r mesurau o ran cytundebau masnach rhwng y DU a gwledydd eraill yn cynnal safonau diogelwch statudol ar gyfer iechyd pobl mewn perthynas â'r meysydd o fewn ein cylch gwaith statudol, ac i ba raddau y maent yn gwneud hynny.<br><br>Mae hwn yn weithgaredd parhaus, y byddwn yn ei gyflawni ym mhob blwyddyn o'r cynllun hwn. Mae'r amserlenni a gofynion penodol yn dibynnu ar gyflymder uchelgais y llywodraeth i negodi a chytuno ar gytundebau masnach gyda gwledydd blaenoriaeth. Yr Adran Busnes a Masnach sy'n pennu'r dyddiadau cau ar gyfer adran 42.<br><br>Mae cysylltiad agos rhwng y gweithgaredd hwn a'r cyngor a ddarparwn ar gytundebau masnach a ddisgrifir uchod fel rhan o'n rôl fel lluniwr polisi. |
| [W2] Dylem fonitro safonau bwyd y DU a chynhyrchu adolygiadau rheolaidd ar gyflwr safonau bwyd cenedlaethol (yn ymwneud â diogelwch a dilysrwydd), gan | Yn 2022, cyhoeddodd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ein hadolygiad blynyddol cyntaf o safonau bwyd ledled y DU. Yn yr adroddiad hwn, gwnaethom ofyn a yw ein safonau bwyd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn adrodd, gyda'r bwriad o ddiogelu buddiannau defnyddwyr. |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| gynnwys bwyd domestig a bwyd wedi'i fewnforio yn ogystal â chyflwr y system rheoleiddio bwyd. | Yn 2023/24, byddwn yn cyhoeddi'r ail adroddiad ar safonau bwyd, ac yn datblygu rhaglen waith bum mlynedd ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau pellach yn 2024/25 a 2025/26. |

Gallem fynd ymhellach pe bai amser ac adnoddau yn caniatáu. Gallai ein huchelgais fel corff gwarchod gynnwys:

- [W3] Ehangu ein gwaith o fonitro safonau i gynnwys iechyd, cynaliadwyedd, lles anifeiliaid, effaith gymdeithasol, ac ymddygiad defnyddwyr. Yna gellid ymgorffori hyn oll mewn adroddiad blynyddol ehangach ar safonau bwyd.

## Cynullydd a chydweithredwr

**Amcan: Byddwn yn gweithio mewn partneriaethau ar draws y system fwyd i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a busnesau.**

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [CC1] Rhaid i ni weithio gyda llywodraethau ehangach yn Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a chyda Safonau Bwyd yr Alban i sicrhau bod yr ASB yn cyfrannu at gyflawni prif flaenoriaethau trawslywodraethol. | Rydym yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyflawni blaenoriaethau a rennir a sicrhau bod buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yn cael eu cynrychioli. Trafodir nifer o'r blaenoriaethau hyn uchod, gan gynnwys ein gwaith ar y Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau a Fframwaith Windsor.<br><br>Fodd bynnag, bydd blaenoriaethau trawslywodraethol pellach y byddwn yn cyfrannu'n sylweddol iddynt.<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys rhai rhwymedigaethau cyfreithiol a chyfrifoldeb ffurfiol dros bolisi, gan gynnwys:<br><br>Yng Ngogledd Iwerddon, bydd yr ASB yn cefnogi datblygu a chyflwyno polisi ac ymchwil i sicrhau amgylchedd bwyd iachach yn unol â chanlyniadau'r strategaeth gordewdra newydd a arweinir gan yr Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon. Ei nod yw cefnogi defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon i gael mynediad at ddeiet iachach drwy, er enghraifft, ailfformiwleiddio, labelu maeth, cyfyngu ar hyrwyddiadau a safonau maeth.<br><br>Byddwn yn parhau i gyflwyno ein darpariaeth Gymraeg gynhwysfawr yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg statudol, o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd hyn yn sicrhau dewis iaith gweithredol i'n defnyddwyr yng Nghymru, fel y gall pawb sy'n derbyn gwasanaeth gan yr ASB, neu sy'n cyfathrebu â ni, wneud hynny yn eu dewis iaith, a chael gwasanaeth a fydd o'r un ansawdd a'r un mor hygyrch â gwasanaethau Saesneg<br><br>Byddwn yn cefnogi Gweinidogion Cymru wrth iddynt gynnal eu hadolygiad arfaethedig o'r ASB yng Nghymru. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried strwythurau presennol, |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| | llywodraethu a dulliau ymgysylltu â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau y bydd unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion yn cryfhau ein gallu i roi’r adnoddau a’r prosesau sydd eu hangen ar y cyhoedd. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i gyflawni amcanion a blaenoriaethau corfforaethol yr ASB.<br><br>Mae hefyd yn cynnwys blaenoriaethau rydym yn eu cefnogi oherwydd ein harbenigedd a’n galluoedd. Bydd y rhestr o flaenoriaethau yr ydym yn ymwneud â nhw yn esblygu dros amser.<br><br>Bydd y rhestr yn cynnwys lansio cynllun peilot yr ASB a’r Adran Addysg, ‘Cydymffurfio â Safonau Bwyd mewn Ysgolion’, a hynny mewn 18 o awdurdodau lleol sy’n cymryd rhan yn Lloegr. Mae hon yn fenter ar y cyd, a gefnogir gan y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau. Ei nod yw creu a phrofi dull newydd o gefnogi ysgolion i gydymffurfio â’r Safonau Bwyd mewn Ysgolion presennol. Mae’r safonau’n sicrhau bod ysgolion yn darparu dewisiadau iachus i blant o ran bwyd a diod, a bod plant yn cael yr egni a’r maeth sydd eu hangen arnynt yn ystod y diwrnod ysgol. Byddwn yn cwblhau ac yn gwerthuso canlyniadau’r cynllun peilot yn 2023/24, gan ystyried y camau nesaf.<br><br>Mae’r ASB hefyd wedi bod yn gweithio’n agos gydag Defra, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chynrychiolwyr o bob rhan o’r gadwyn gyflenwi bwyd i ddatblygu’r Bartneriaeth Tryloywder Data Bwyd (FDTP) i wella data a gwybodaeth systemau bwyd. Bydd hyn yn cynnwys datblygu metrigau cyson a diffiniedig i fesur yr effeithiau cynaliadwyedd amgylcheddol ar fwyd. Byddwn yn datblygu canllawiau’r llywodraeth ar ddull safonol o fesur a chyfathrebu allyriadau nwyon tŷ gwydr ‘Sgôp 3’ ar gyfer y sector bwyd a diod. Byddwn hefyd yn ystyried metrigau sy’n cymell ac yn mesur cynnydd tuag at wella iachusrwydd bwyd yn fwy effeithiol, a byddwn yn galluogi ac yn annog cwmnïau bwyd i ddangos cynnydd o ran iachusrwydd y cynhyrchion y maent yn eu gwerthu.  Yr ASB (ynghyd â’r diwydiant) sy’n gyfrifol am y ffrwd gwaith data, sy’n elfen drawsbynciol ar gyfer yr FDTP cyfan. |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [CC2] Rhaid i ni barhau i ddylanwadu ar ddatblygiad safonau diogelwch bwyd Codex Alimentarius. | Mae'r Codex Alimentarius yn datblygu safonau bwyd byd-eang, canllawiau a chodau ymarfer ar gyfer diogelwch ac ansawdd bwyd. Fe'i sefydlwyd bron i 60 mlynedd yn ôl gan Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig a Sefydliad Iechyd y Byd i ddiogelu iechyd defnyddwyr a hyrwyddo arferion teg yn y fasnach fwyd. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw prif Adran Llywodraeth y DU ar gyfer Codex. Yr ASB sy'n arwain llawer o'r pwyllgorau fertigol sy'n ymwneud â hylendid bwyd, ychwanegion bwyd, samplu a dadansoddi dulliau, halogion bwyd a systemau ardystio mewnforion ac allforion.<br><br>Byddwn yn parhau i arwain ar bum Pwyllgor Codex, a fydd yn parhau i gwrdd yn rheolaidd dros y 3 blynedd nesaf i ddatblygu safonau rhyngwladol. |
| [CC3] Dylem feithrin perthynas waith gref â rhanddeiliaid yn y diwydiant a'r system fwyd er mwyn gweithio gydag eraill, a thrwyddynt. | Mae hyn yn cynnwys y diwydiant, y byd academaidd, cynrychiolwyr defnyddwyr a'n cyflenwyr. Trwy'r perthnasoedd hyn, gallwn nodi cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chanllawiau, yn ogystal â deall yn well sut y gallem gydweithio er budd defnyddwyr.<br><br>Mae hwn yn weithgaredd parhaus y byddwn yn gweithio arno bob blwyddyn. Fodd bynnag, yn 2023/24 byddwn hefyd yn treialu dull 'Rheolwyr Perthnasoedd yr ASB' newydd wrth brofi dulliau newydd o reoleiddio manwerthwyr mawr sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf a chydgysylltu ar gyfer eu busnesau (gweler y rheoleiddiwr uchod). Yna, byddwn yn asesu effeithiolrwydd ac effaith y dull hwn ac yn ystyried a yw'n rhywbeth a allai ychwanegu gwerth i'r ASB fel rhan o'n dull gweithredu fel rheoleiddiwr yn y dyfodol. |
| [CC4] Dylem fynd ati i sicrhau ein henw da a'n dylanwad rhyngwladol fel arweinydd ym maes diogelwch a rheoleiddio bwyd. | Mae'r ASB bob amser wedi chwarae rhan bwysig yn rhyngwladol drwy nifer o fforymau rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys chwarae rhan mewn grwpiau amlochrog fel Sefydliad y Byd ar gyfer Iechyd Anifeiliaid (WOAH), y Cyfleuster Datblygu Safonau a Masnach, a'n gwaith cydweithredol ag adrannau eraill y llywodraeth yn Sefydliad Masnach y Byd. Rydym yn gwerthfawrogi aelodau ein grwpiau technegol a gwyddonol byd-eang, yn ogystal â'n grwpiau ymatebol ar reoli argyfyngau a thwyll bwyd. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau digidol a data modern gyda'n partneriaid rhyngwladol. Mae strwythur byd-eang integredig y system fwyd yn gofyn am ymgysylltiad a phartneriaethau rhyngwladol cryf a chydweithredol i |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| | gynnal diogelwch bwyd ar ein marchnad a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig yr ASB, bydd angen i'n gweithgareddau gefnogi'n glir y blaenoriaethau a nodir yng ngweddill y cynllun hwn.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn creu cynllun gwaith mewnol a fydd yn pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithgareddau'r ASB a chyflwyno newidiadau i brosesau mewnol er mwyn cydlynu dulliau ymgysylltu'n well. Byddwn hefyd yn parhau i drefnu cyfleoedd i ymgysylltu â staff uwch i gefnogi amcanion y cynllun corfforaethol, a fydd, yn ystod 23/24, yn cynnwys Penaethiaid Asiantaethau Bwyd  Rhyngwladol yn Nulyn a'r Fenter Diogelwch Bwyd Byd-eang, ac ymweliadau â'r Unol Daleithiau, Canada, Ffrainc, Israel a India.<br><br>Drwy gydol y cyfnod hwn, bydd yr ASB hefyd yn parhau i ymgysylltu ar lefel ryngwladol ac ar draws Whitehall i gefnogi gwaith moderneiddio dulliau rheoleiddio wedi'i dargedu, sy'n gwella systemau rheoli bwyd rhyngwladol ac sy'n diogelu defnyddwyr yn y DU yn well. Yn unol â'n strategaeth, dylem hefyd geisio canfod cyfleoedd i gryfhau ein presenoldeb mewn fforymau rhyngwladol perthnasol. Mae'r mentrau domestig sydd gennym, fel Safonau Bwyd mewn Ysgolion (gweler uchod am fanylion) wedi denu sylw Rhaglen Bwyd y Byd y Cenhedloedd Unedig ac ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r cynllun peilot, bydd cyfleoedd posib i rannu arferion da. Mae'r ASB yn gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth, gan gynnwys y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a rhwydwaith newydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer a  swyddogion amaethyddiaeth, i nodi cyfleoedd addas ar gyfer ymgysylltu a dylanwadu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu i gynorthwyo ein dysgu a'n ffyrdd o feddwl mewn perthynas â dulliau arloesol o gynhyrchu cynhyrchion bwyd cynaliadwy, gan gynnwys proteinau amgen a chig sy'n seiliedig ar gelloedd, sydd oll yn archwilio agweddau amrywiol i ddeall y prosesau ond hefyd y gofynion rheoleiddio posib y byddai angen eu hystyried. |

Gallem fynd ymhellach pe bai amser ac adnoddau yn caniatáu. Gallai ein huchelgais fel cynullydd a chydweithredwr gynnwys y canlynol:

- [CC5] Cynnull rhanddeiliaid systemau bwyd i ddatrys y prif broblemau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu Gwaith ymatebol fyddai hwn, a hynny pan fydd mater penodol yn cael ei nodi.

## Galluogwr

**Amcan: Byddwn yn darparu'r bobl, yr adnoddau a'r prosesau sydd eu hangen i gyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau corfforaethol.**

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [E1] Rhaid i ni ddenu, cadw, a chefnogi ein pobl, gan nodi'r sgiliau a'r anghenion presennol yn ogystal â chyflawni a gweithredu'r cynllun pobl. | Mae hyn yn cynnwys ein holl weithgareddau busnes arferol i recriwtio pobl mewn dull teg, arloesol ac effeithiol, rheoli perfformiad a thalent, a dysgu.<br><br>Mae'r prif weithgareddau sydd wedi'u nodi yn ein cynllun pobl yn cynnwys cynnal adolygiad o'n pecyn gwobrwyo tâl a buddion yn 2023/24 a pharhau i feithrin diwylliant sefydliadol ymroddedig a chefnogol fel bod ein pobl yn teimlo bod croeso iddynt yn ystod eu hamser gyda ni, a'u bod am ddod yn ôl i'r ASB. Byddwn hefyd yn cyflwyno fframwaith datblygu rheolwyr ac arweinwyr newydd sy'n adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n gwerthoedd. Mae'r cynllun pobl hefyd yn nodi gweithgareddau ar gyfer 2024/25 a 2025/26, ein cynllun i sicrhau bod gennym y cymysgedd cywir o sgiliau yn ein sefydliad (er enghraifft, milfeddygon neu wyddonwyr), trefniadau cyflog a chynlluniau ar gyfer cynhwysiant ac amrywiaeth yn ein sefydliad. |
| [E2] Rhaid i ni ddarparu a datblygu data a gwasanaethau digidol ar gyfer defnyddwyr mewnol a'r cyhoedd. | Mae pawb yn y DU yn ddefnyddiwr posib o wasanaethau digidol a data yr ASB. Mae angen gwybodaeth am ddiogelwch a hylendid bwyd ar ddefnyddwyr; mae angen gwybodaeth ar fusnesau i allu rhedeg busnes bwyd yn ddiogel; ac mae angen gwasanaethau ar aelodau staff yr ASB i weithio'n effeithlon.<br><br>Byddwn yn parhau i ddatblygu ystod o wasanaethau digidol a data yn unol â'n safon gwasanaeth a safon gwasanaeth GOV.UK lle bo'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys deall anghenion a phroblemau defnyddwyr, dewis yr offer cywir a gweithio mewn ffordd ystwyth i gyflawni ein gwaith. Mae enghreifftiau o'r gwasanaethau a ddarparwn yn cynnwys gwneud cais am awdurdodiad cynhyrchion rheoleiddiedig, neu ein dangosfwrdd tebygolrwydd risg, sy'n |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
| --- | --- |
| | monitro'r tebygolrwydd y bydd nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid peryglus yn cael eu mewnforio i'r DU ar gyfer awdurdodau lleol.<br><br>Byddwn yn parhau i ddatblygu portffolio o wasanaethau digidol a data bob blwyddyn, a thrafodir nifer o wasanaethau digidol penodol isod fel rhan o weithgareddau eraill, fel adnewyddu sawl system fawr. |
| [E3] Rhaid i ni adnewyddu ein systemau i ddarparu cymorth technoleg cadarn ac effeithlon, gan gynnwys roi system cyllid, cyflogres ac AD newydd ar waith. | Mae ein gwaith i ddarparu gwasanaethau digidol, data a thechnoleg cyflym, modern a dibynadwy yn cynnwys adnewyddu rhai o'n prif systemau.<br><br>Un o'r prif systemau sy'n cael ei disodli yw ein system cyllid, cyflogres ac AD (mae'r gwaith i gaffael a rhoi hon ar waith yn cael ei adnabod yn fewnol fel y Rhaglen 'Connect'). Yn 2023/24, byddwn yn gadael ein cyflenwyr presennol ac yn symud yr holl ddata i'r system newydd. Yn 2024/25, byddwn yn ymchwilio i ehangu ymarferoldeb y system y tu hwnt i'r cynnyrch hyfyw lleiaf , sef cyllid, cyflogres ac AD.<br><br>Yn 2023/24, byddwn hefyd yn dechrau'r broses o adolygu ein system Hwyluso Cyfathrebu (ar gyfer cyfathrebu ag awdurdodau lleol) a chwilio am system newydd yn lle ein System Monitro Gorfodi Awdurdodau Lleol (sy'n casglu data gan awdurdodau lleol ar gynnal rheolaethau swyddogol), sy'n dod i ddiwedd eu hoes. |
| [E4] Rhaid i ni gefnogi model gweithredu'r ASB drwy ddarparu'r ystadau iawn ar gyfer ein hanghenion yn y dyfodol. | Mae gan yr ASB sawl swyddfa ar draws y DU, gan gynnwys Clive House (ein swyddfa yn Llundain) a swyddfeydd yng Nghaerdydd a Belfast.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn cwblhau ein Strategaeth Ystadau newydd, gan nodi gweledigaeth yr ASB ar gyfer ein hystadau yn y dyfodol yn ogystal â chynllun trosglwyddo. Yn 2025/26, rydym yn rhagweld gadael Clive House, ein pencadlys presennol yn Llundain, a symud i swyddfa newydd yn Llundain Ehangach. |

| Gweithgaredd | Manylion pellach |
|---|---|
| [E5] Rhaid i ni gyflwyno a rhoi fframwaith newydd ar waith ar sicrhau perfformiad. | Byddwn yn rhoi mesurau perfformiad newydd ar waith i roi trosolwg strategol o’n cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion. Bydd y fframwaith yn helpu i nodi risgiau trawsbynciol, yn cefnogi penderfyniadau blaenoriaethu ac yn rhoi barn gyffredinol ynghylch a ydym ar y trywydd iawn i gyflawni ein hamcanion neu, os nad ydym, yn trafod pa gamau y gallwn eu cymryd ar y cyd.<br><br>Byddwn yn cyflwyno ein fframwaith sicrhau perfformiad yn 2023/24, gan fynd ati i’w roi ar waith a’i wella’n barhaus yn 2024/25 a 2025/26. |
| [E6] Rhaid i ni ddatblygu tystiolaeth a dull strategol o gefnogi ein hadolygiad gwariant nesaf a chomisiynau eraill y llywodraeth. | Caiff cyllideb yr ASB ei phennu gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru, gan Drysorlys EF fel rhan o adolygiadau gwariant rheolaidd, a chan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon. Mae ein setliad ariannol presennol yn gymwys tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25.<br><br>Yn 2023/24, byddwn yn paratoi tystiolaeth ar gyfer ein cyflwyniad nesaf o ran adolygu gwariant. Rydym yn rhagweld cais gan Drysorlys EF i ddatblygu bid newydd yn 2024/25 ar gyfer blynyddoedd i ddod. |

# Atodiad 2: Ein dangosyddion

Byddwn yn monitro’r cynnydd a wneir yn erbyn ein strategaeth gan ddefnyddio’r dangosyddion a ddisgrifir yn yr atodiad hwn. Ar yr un pryd, byddwn yn adolygu’r rhestr o ddangosyddion yn barhaus, gan eu diweddaru i adlewyrchu mesurau newydd. Er enghraifft, wrth i ni weithio mwy ar fwyd iachach a mwy cynaliadwy, byddwn yn disgwyl nodi mesurau cynnydd newydd y gallwn eu hychwanegu.

Mae’r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pob dangosydd wedi’i gynnwys. Fodd bynnag, dyma flwyddyn gyntaf ein cynllun, felly bwriedir i’r data bennu llinell sylfaen a chyd-destun ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ni fwriedir iddo gyfleu asesiad o’r cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae’n rhaid dehongli dangosyddion cynnydd yn ofalus yn eu cyd-destun, er mwyn rhoi darlun cywir o’r ffordd y caiff ein strategaeth ei chyflawni. Mae llawer o ffactorau a all achosi newid yn y system fwyd, ac nid oes gan yr ASB ddylanwad uniongyrchol ar bob un ohonynt.


## Bwyd y gallwch ymddiried ynddo

Mae mesur ymddiriedaeth mewn bwyd ac yn yr ASB yn gymhleth, ac mae amrywiaeth o ffactorau yn gallu dylanwadu ar hyn. Mae gennym ddylanwad uniongyrchol ac anuniongyrchol ar rai o’r ffactorau sy’n gwneud i bobl i ymddiried mewn bwyd.

Mae’r ASB a’n partneriaid yn gweithio i sicrhau bod bwyd yn ddiogel, yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label. a bod bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy. Mae’r ffactorau hyn yn cyfrannu’n anuniongyrchol at lefelau ymddiriedaeth yn y system fwyd. Mae’r hyn a wnawn yn cyfrannu’n uniongyrchol at ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr ASB ei hun, sydd yn ei dro yn cyfrannu at ymddiriedaeth yn y system fwyd**.**

Mae ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system fwyd yn uchel. Dyma ganfyddiadau Cylch 5 ein harolwg ymchwil cymdeithasol blaenllaw, Bwyd a Chi 2:

- Mae 91% o’r ymatebwyr yn hyderus bod y bwyd y maent yn ei brynu yn ddiogel i’w fwyta
- Mae 86% yn hyderus bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir
- Mae 80% yn hyderus y gellir dibynnu ar yr ASB (neu asiantaeth gyfrifol y llywodraeth) i ddiogelu’r cyhoedd rhag risgiau sy’n ymwneud â bwyd




Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2, Cylchoedd 1-5, 2023

Mae bron pob busnes bwyd bach a micro wedi clywed am yr ASB (98%). Mae'r rhai sydd wedi cysylltu â ni yn rhoi sgôr gyfartalog o 9/10 i'r asiantaeth o ran dibynadwyedd. Mae 95% o'r holl fusnesau a holwyd yn hyderus bod yr ASB yn ddylanwadol wrth gynnal safonau yn y diwydiant bwyd ac mae 93% yn hyderus ein bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod diogelwch a safonau bwyd yn cael eu cynnal a'u gwella.

Yn ôl ymchwil ansoddol a gynhaliwyd ar ran yr ASB gan IPSOS (Tachwedd 2021), mae rhanddeiliaid yn cytuno ein bod yn rhoi defnyddwyr yn gyntaf yn gyson yn ein gwaith:

- dywedir mai ein prif gryfderau yw ein hymrwmyiad i fod yn agored ac yn dryloyw, a'n huniondeb
- canfuwyd bod ymgysylltiad defnyddwyr â'r ASB yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol
- rydym yn cael ein gweld fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan wyddoniaeth, sydd â lefel uchel o annibyniaeth ac sy'n gallu aros yn gytbwys ac yn ddiduedd
- nododd rhanddeiliaid feysydd i'w gwella, gan gynnwys rhoi mwy o eglurder ynghylch ein rôl, ein strwythur mewnol, a sut rydym yn gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth, a phrofiad staff yr ASB o'r ffordd mae gwahanol sectorau bwyd yn gweithredu ar lawr gwlad

## Cynnal bwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label

Busnesau bwyd sy'n gyfrifol am gynhyrchu bwyd diogel a bwyd sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Serch hynny, mae gennym ddylanwad uniongyrchol ar hyn, er enghraifft drwy ein gwaith yn rheoleiddio busnesau cig neu ymateb i droseddau bwyd. Mae gennym hefyd ddylanwad anuniongyrchol drwy ein gwaith gyda phartneriaid fel awdurdodau lleol sy'n rheoleiddio'r rhan fwyaf o fusnesau bwyd.

Mae ein gwaith yn ei gwneud yn haws i fusnesau gyflawni eu rhwymedigaethau o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd, a gwneud y peth iawn ac, ar yr un pryd, i gymryd camau pan aiff rhywbeth o'i le. Rydym hefyd yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn y maent yn ei fwyta.

## Clefydau a gludir gan fwyd

Yn unol â Fframwaith Clefydau a Gludir gan Fwyd yr ASB, rydym yn monitro diogelwch bwyd drwy niferoedd yr achosion o glefydau a gludir gan fwyd yr adroddir amdanynt a'r gyfradd flynyddol o 4 prif bathogen: Campylobacter, Salmonela, tocsin Shiga sy'n cynhyrchu E.coli O157, a Listeria monocytogenes. Mae nifer o faterion y mae angen eu hystyried wrth ddehongli'r ffigurau hyn gan, gynnwys:

- nid yw nifer fawr o achosion o glefydau a gludir gan fwyd yn cael eu cofnodi (er enghraifft, amcangyfrifir mai dim ond 1 o bob 9 achos o Campylobacter a adroddwyd i strwythurau gwyliadwriaeth genedlaethol yn 2008-9, gweler astudiaeth IID2 The Second Study of Infectious Intestinal Disease in the Community)
- gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfraddau rai pathogenau a gludir gan fwyd yn ystod pandemig COVID-19 yn 2020 a 2021, ac nid yw effaith barhaus ymddygiadau a ddatblygwyd yn ystod y pandemig yn hysbys

**Clefydau a gludir gan fwyd – achosion a adroddir fesul 100,000 o'r boblogaeth**

| Prif bathogen a gludir gan fwyd | Cyfartaledd canolrifol<br>ar gyfer 2015-19 | 2021 |
|---|---|---|
| Campylobacter | 97 | 101.5 |
| Salmonela | 15 | 8.8 |
| E. coli (STEC) O157 sy'n cynhyrchu shiga-toxin | 1.3 | 0.9 |
| Listeria monocytogenes | 0.3 | 0.3 |

Daw'r data oddi wrth Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd Cyhoeddus yr Alban ac Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Gogledd Iwerddon. Data dros dro yw'r data a gall newid.


## Cydymffurfiaeth busnesau bwyd

Mae busnesau bwyd yn cael eu harolygu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd. Mae canlyniadau arolygiadau yn ddangosyddion allweddol o ran diogelwch a safonau bwyd. Roedd mwy na 600,000 o fusnesau bwyd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2021/22.

## Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r ASB yn gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynllun yn helpu defnyddwyr i wneud dewis gwybodus wrth fwyta allan neu brynu bwyd, drwy ddarparu gwybodaeth am y safonau hylendid a welir mewn busnesau bwyd sy'n cyflenwi defnyddwyr ar adeg arolygiadau awdurdodau lleol. Yng Nghymru, mae'r CSHB hefyd yn berthnasol i fusnesau sy'n gwerthu i fusnesau eraill, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr bwyd a chyfanwerthwyr.

Mae gan fwy na 470,000 o fusnesau Sgôr Hylendid Bwyd. Mae'r CSHB yn cwmpasu tua 85% o fusnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae busnesau yn cael sgôr rhwng 0 a 5. Mae sgôr o 3 neu uwch yn dangos safonau hylendid boddhaol ar y cyfan. Mae'r sgôr uchaf, sef 5, yn golygu bod gan y busnes safonau da iawn. Mae'n orfodol i fusnesau bwyd arddangos sgoriau'r CSHB yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ac yn wirfoddol yn Lloegr.



## Cydymffurfio o ran hylendid cig

**Sefydliadau cig cymeradwy**

**99%**

sydd â sgôr dda neu foddhaol

Mawrth 2022

Mae'r ASB yn archwilio sefydliadau busnes cig cymeradwy, sef y rhai y mae angen cynnal rheolaethau milfeddygol ynddynt. Ar ddiwedd 2021/22, roedd 873 o sefydliadau cig cymeradwy.

Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg sy'n eu categoreiddio yn ôl lefelau cydymffurfio. Roedd cyfraddau cydymffurfio ar gyfer sefydliadau cymeradwy ym mis Mawrth 2022 yn dangos bod 98.9% yn 'dda' neu'n 'foddhaol ar y cyfan' a bod 1.2% 'angen gwella' neu 'angen gwella ar frys'.

## Cydymffurfio o ran hylendid cynnyrch llaeth

Mae'r ASB yn cynnal arolygiadau hylendid ar bob fferm laeth gofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon, caiff arolygiadau hylendid eu cynnal gan Gangen Sicrhau Ansawdd yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Roedd 7,978 o sefydliadau llaeth cofrestredig ar ddiwedd Rhagfyr 2022.

Yng Nghymru a Lloegr, cyflawnodd 98.1% o sefydliadau llaeth a arolygwyd y canlyniadau uchaf, sef Da neu Boddhaol ar y cyfan, yn 2022. Mae hyn yn welliant nodedig ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol ac mae hyn o ganlyniad i newid yn y ffordd y cyfrifir cyfansymiau cydymffurfio hylendid llaeth.  Mae'n adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym ar gydymffurfiaeth ac mae'n cyd-fynd yn well â'r fethodoleg adrodd a ddefnyddir yng Ngogledd Iwerddon.


**Lefelau cydymffurfio hylendid llaeth ar gyfer safleoedd a aseswyd ar 31 Rhagfyr 2022**

| | Da | Boddhaol ar y cyfan | Angen gwella | Angen gwella ar frys |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru a Lloegr** | 75.0% | 23.1% | 1.9% | 0.04% |
| **Gogledd Iwerddon** | 59.5% | 39.7% | 0.8% | 0.00% |
| **Cyfanswm** | **72.4%** | **25.8%** | **1.7%** | **0.04%** |

## Digwyddiadau bwyd

Mae digwyddiad bwyd yn codi pan fydd pryderon am ddiogelwch neu ansawdd bwyd (neu fwyd anifeiliaid) yn golygu bod angen cymryd camau gweithredu er mwyn diogelu defnyddwyr. Mae digwyddiadau'n perthyn yn fras i 2 gategori:

- halogi bwyd neu fwyd anifeiliaid wrth brosesu, dosbarthu, manwerthu ac arlwyo
- digwyddiadau sy'n llygru'r amgylchedd fel tân, cemegion neu olew yn tasgu ac ymbelydredd yn gollwng




Mae digwyddiadau bwyd yn amrywio'n sylweddol o ran eu difrifoldeb, nifer y defnyddwyr dan sylw a faint o fwyd yr effeithir arno. Gall niferoedd hefyd gael eu heffeithio os bydd mwy nag un digwyddiad o un ffynhonnell neu os bydd newidiadau mewn mewn samplu a chanfod.

Gostyngodd nifer y digwyddiadau yn ystod pandemig COVID-19 yn 2020, ac yna cynyddodd yn raddol drwy gydol 2021, ond gan barhau i fod ar lefel is na'r hyn a welwyd yn 2019.

## Digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alergenau

Alergenau yw'r ail achos mwyaf o ddigwyddiadau a gallant fod yn angheuol i bobl â gorsensitifrwydd i fwyd. Cafwyd 320 o adroddiadau am ddigwyddiadau yn ymwneud ag alergenau yn 2021/22.

**Digwyddiadau alergenau**

320

2021/22

Bydd yr ASB yn ystyried ac yn asesu opsiynau i wella'r ffordd y darperir gwybodaeth am alergenau dros y 3 blynedd nesaf, ac mae eisoes wedi cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o alergenau, wedi'u hanelu at ddefnyddwyr a busnesau bwyd. Gall ymwybyddiaeth well o orsensitifrwydd i fwyd arwain at gynyddu'r cyfraddau adrodd am ddigwyddiadau alergenau.

## Troseddau bwyd

**Tarfu ar droseddau bwyd**

64

Cyfeirir at weithred y cadarnheir ei fod wedi lleihau'r risg neu'r niwed a wneir gan droseddau bwyd fel 'tarfu'. Mae enghreifftiau o darfu yn cynnwys:

- achos o erlyn neu arestio
- cefnogi busnes i fod yn fwy gwydn rhag troseddau bwyd

Mae effaith tarfu yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar nifer y cyflawnwyr posib a'r dioddefwyr yr effeithir arnynt. Yn 2021/22 bu 64 o achosion o darfu.

Mae troseddau bwyd sy'n cynnwys risg i ddiogelwch bwyd yn cael eu cofnodi fel digwyddiadau bwyd. Efallai na fydd troseddau bwyd sy'n effeithio ar ddilysrwydd bwyd, megis twyll bwyd, yn peri risg i iechyd y cyhoedd.


## Samplu bwyd wedi'i dargedu

Mae arolwg Basged o fwyd yr ASB yn rhoi ciplun sy'n dangos pa mor dda y mae ystod o gynhyrchion bwyd yn cydymffurfio â safonau a diogelwch bwyd, gan gynnwys

- presenoldeb alergenau a halogion
- gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn perthynas â dilysrwydd a labelu

Nid sampl ar hap o'r holl gynhyrchion sydd ar gael yw'r arolwg Basged o fwyd. Mae'r arolwg yn targedu cynhyrchion sydd wedi bod yn destun problemau dilysrwydd yn y gorffennol (fel reis basmati, perlysiau a sbeisys) ac yn ychwanegu bwydydd sy'n cael eu bwyta'n gyffredin (fel bara a llaeth). Yn 2021, cymerwyd y mwyafrif o samplau o fusnesau bwyd llai ledled y wlad (gan gynnwys siopau manwerthu ac ar-lein), sy'n cynnal gwaith samplu'n llai rheolaidd na busnesau bwyd mawr.

Dangosodd yr arolwg fod 89% o'r cynhyrchion a brofwyd yn cydymffurfio o ran y safonau penodol a brofwyd gennym.  Roedd y mwyafrif o'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a ganfuwyd yn ymwneud â labelu a chyfansoddiad.





Ffynhonnell: Arolwg Basged o fwyd yr ASB, 2021. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

## Cyfrannu at fwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy


Mae gallu'r ASB i ddylanwadu ar wneud bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy yn fwy cyfyngedig na'i gallu i ddylanwadu ar sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Adrannau eraill y llywodraeth sy'n gyfrifol am bolisi yn y rhan fwyaf o'r meysydd hyn, ond gall yr ASB gael effaith wirioneddol drwy wneud cyfraniadau wedi'u targedu. O'r herwydd, bydd ein dangosyddion yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau defnyddwyr at fwyd iachach a mwy cynaliadwy ac ar ein cyfraniadau, yn hytrach na'r canlyniadau o ran y system fwyd.

### Arolwg Bwyd a Chi 2

Mae ein harolwg ymchwil gymdeithasol blaenllaw, Bwyd a Chi 2, yn cynnwys cwestiynau ar ymddygiadau ymatebwyr sy'n ymwneud â bwyd. Rhoddwyd sylw i'r rhan ddiwethaf mewn cylch cynharach o arolwg Bwyd a Chi 2, yn 2022. Soniodd defnyddwyr am sawl newid mewn ymddygiad dros y 12 mis blaenorol, er enghraifft dywedodd 40% eu bod yn bwyta llai o fwyd wedi'i brosesu, a dywedodd yr un ganran eu bod yn lleihau gwastraff bwyd.




Roedd y rhesymau dros wneud y newidiadau ymddygiadol hyn yn amrywio. Rhesymau iechyd oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros nifer o’r newidiadau y gwnaethom holi yn eu cylch. Roedd pryderon amgylcheddol neu gynaliadwyedd hefyd yn ddewis poblogaidd.




## Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon mae'r ASB yn gyfrifol am gyflawni rhai elfennau o bolisi maeth ac iechyd deietegol. Y nod yw gwella canlyniadau maeth ac iechyd trwy sicrhau bod cynhyrchion bwyd iachach ar gael a gwella dealltwriaeth defnyddwyr o faeth.

Bydd ein cyfraniad at gyflenwi bwyd iachach a mwy cynaliadwy yn cael ei nodi gan astudiaethau achos a data o raglen *Making Food Better* yr ASB, *Calorie Wise*, *MenuCal*, a rhaglenni ac arolygon perthnasol eraill.


### *Making Food Better*

Mae rhaglen *Making Food Better* yn cefnogi busnesau bwyd bach a chanolig eu maint i leihau faint o galorïau, siwgr, braster dirlawn a halen sydd yn y bwyd y maent yn ei gynhyrchu, ei werthu neu ei weini, yn ogystal â lleihau maint y dognau er mwyn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau iachach.

Edrychwyd 1,226 o weithiau ar weminar yr ASB ar ailfformiwleiddio cynhyrchion becws i wneud bwyd yn iachach.

Roedd arolwg *Eating Well, Choosing Better* yn monitro dealltwriaeth a gwybodaeth i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon am yr hyn a argymhellir bob dydd o ran calorïau, y defnydd o labeli goleuadau traffig, agweddau tuag at ailfformiwleiddio a gwybodaeth am galorïau, ac ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd cyfathrebu.

Roedd prif ganfyddiadau Arolwg Monitro *Eating Well, Choosing Better* - Cylch 7 (2021) yn nodi'r canlynol:



- bod **21%** o ddynion a **20%** o gyfranogwyr benywaidd yn ymwybodol o'r nifer o galorïau dyddiol cywir a argymhellir ar gyfer eu rhyw.
- bod **42%** o'r ymatebwyr yn 2021 yn defnyddio'r label goleuadau traffig.
- bod **79%** o'r ymatebwyr yn 2021 yn deall y label goleuadau traffig.

### *MenuCal*

Adnodd ar-lein rhad ac am ddim yw *MenuCal* sy'n helpu busnesau bwyd i roi gwybodaeth am alergenau a chalorïau ar eu bwydlenni. Cafodd 10,591 o ryseitiau eu huwchlwytho i MenuCal yn 2021/22, sef cynnydd o 63% ers y flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol bod cyflwyno labelu calorïau gorfodol yn y Sector Allan o'r Cartref yn Lloegr wedi dylanwadu ar y cynnydd hwn.

### Cyfrannu mwy

Y tu allan i'r rôl hon yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i ni gydweithio ag adrannau eraill o'r llywodraeth sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am bolisi ar iechyd a chynaliadwyedd, a chyda rhanddeiliaid eraill sydd â'r arbenigedd a'r dylanwad i gyflawni gwelliannau. Er enghraifft, mae ein gwaith yng Nghymru yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn gosod uchelgais realistig i gyfrannu at

iechyd a chynaliadwyedd, gan ystyried cyfyngiadau tymor byr a’r gofynion sy’n gysylltiedig â chyflawni ein cylch gwaith craidd.

Ar gyfer y meysydd hyn, mae ein dangosyddion cynnydd yn canolbwyntio llai ar y system fwyd a mwy ar faint o waith y mae’r ASB yn ei wneud mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill. Gweithredoedd y diwydiant bwyd, defnyddwyr, ac adrannau eraill o’r llywodraeth fydd y prif ffactorau a fydd yn ysgogi newidiadau o ran iechyd a chynaliadwyedd bwyd.  Mae’r ffactorau hyn, yn ogystal â’r amrywiadau cynnil wrth fesur iechyd a chynaliadwyedd bwyd, yn golygu y bydd dangosyddion gweithgareddau’r ASB yn fwy effeithiol wrth werthuso’r ffordd y caiff y rhan hon o’r strategaeth ei chyflawni. Byddwn hefyd yn ceisio egluro beth mae bwyd iachach a mwy cynaliadwy yn ei olygu i’r ASB yn benodol.

Gallai dangosyddion ar gyfer bwyd iachach a mwy cynaliadwy yn y dyfodol gynnwys astudiaethau achos o’n gwaith ar y canlynol:

- y cynllun peilot ar Gydymffurfiaeth Ysgolion â Safonau Bwydydd gyda’r Adran Addysg
- y bartneriaeth Tryloywder Data Bwyd gyda DEFRA
- ein gwaith i wneud bwyd yn fwy cynaliadwy gydag elusen Rhaglen Weithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP).

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Mewn mannau lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth ac i weld y drwydded hon:

- ewch i wefan yr Archifau Gwladol
- anfonwch e-bost i psi@nationalarchives.gov.uk
- ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain, TW9 4DU

Os oes gennych ymholiad am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Dilynwch ni ar Twitter: @fsacymru @fsawales @foodgov

Dewch o hyd i ni ar Facebook: facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd